

Gwarchod y dyfodol

Y rhwysr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

Ionawr 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCydraddoldeb](https://twitter.com/SeneddCydraddoldeb)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n
wynebu rhieni sy'n gweithio

Ionawr 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Altaf Hussain AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
Casgliadau	10
1. Cefndir	11
Casglu tystiolaeth	11
Y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru	12
Cylch gorchwyl	12
2. Ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth bresennol	14
Y ddarpariaeth bresennol	14
Astudiaeth achos: Darpariaeth sefydledig – Sweden	17
Ein barn ni	18
Deall system gymhleth	18
Ein barn ni	20
3. Ehangu'r Cynnig Gofal Plant	22
Bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer plant un a dwy flwydd oed	22
Astudiaeth achos: Ehangu trefniadau darpariaeth dysgu cynnar a gofal plant - Yr Alban	25
Ein barn ni	25
Rhieni nad ydynt yn gweithio a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol	26
Ein barn ni	29
Ysgolion bro	29
Ein barn ni	31
Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019 a hawliau plant	32
Ein barn ni	33
4. Darpariaeth gofal plant gynhwysol	35
Cymunedau lleiafrifoedd ethnig	35

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

Ein barn ni	39
Plant ag anableddau a phlant ag anghenion ychwanegol neu gymhleth	40
Ein barn ni	44
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	44
Ein barn ni	45
5. Cynaliadwyedd y sector a materion am y gweithlu	47
Ein barn ni	50
6. Gofal plant i blant oedran ysgol	52
Gofal plant cofleidiol ac yn ystod y gwyliau	52
Ein barn ni	54
Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010	55
Ein barn ni	56
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	58
Atodiad B: Rhestr o gyfranogwyr yn y sesiynau bord gron	59
Atodiad C: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	60
Atodiad D: Rhestr o sefydliadau partner.....	62

Rhagair y Cadeirydd

Mae gofal plant a chyflogaeth rhieni wedi bod yn fater gwleidyddol ers nifer o flynyddoedd, yn ddiweddar yng nghyd-destun y Cynnig Gofal Plant, yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a gwaith Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd ar rianta a gwaith.

Roedd pandemig COVID-19 yn dod â'r pryderon hirsefydlog am gydraddoldeb rhwng y rhywiau, gofal plant a gwahaniaethu ar sail cyflogaeth i'r wyneb unwaith yn rhagor. Mae mamau â phlant ifanc wedi nodi eu bod wedi gwneud llawer mwy o ofal plant ac addysg gartref na thadau, eu bod yn gweithio llai o oriau a'u bod yn colli enillion. Mae ein hymchwiliad i ofal plant a chyflogaeth rhieni yn canolbwyntio ar y rhwystrau yn sgil darpariaeth gofal plant annigonol ac effaith hyn ar rieni, yn enwedig menywod, sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur a gwneud cynnydd gyrfaol, sef y prif ffactor yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Yn ystod yr ymchwiliad, gwelsom fod nodweddion amrywiol y ddarpariaeth bresennol, ac ansefydlogrwydd a diffyg amrywiaeth o fewn y gweithlu, yn ychwanegu cymhlethdod i rieni sy'n ceisio cydbwysu gofal plant â gwaith cyflogedig. Yn eu Cytundeb Cydweithio, mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r Cynnig Gofal Plant, ond y gwir amdani yw y bydd ehangu'r cynnig presennol heb fynd i'r afael â'r materion hyn yn arwain at broblemau pellach.

Nod ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru yw gwella ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i rieni, cryfhau'r gweithlu, a dysgu o arfer gorau gwledydd eraill. Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datgan dyhead i gynnig gofal plant am ddim i bawb, a chredwn y bydd gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn dod â Chymru'n nes at y nod hwnnw.

Hoffwn ddiolch i'r holl rieni, y gweithwyr rheng flaen, a'r rhanddeiliaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol a gyfrannodd at y gwaith hwn.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datgan yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd. Gallai dulliau posibl gynnwys:

- ysgrifennu at rieni newydd neu hybu'r cymorth sydd ar gael pan fydd rhieni'n cofrestru genedigaeth eu plentyn;
- darparu gwybodaeth i rieni mewn digon o amser cyn diwedd absenoldeb mamolaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau doeth ynghylch gofal plant; a
- datblygu un gwasanaeth gwybodaeth hollgynhwysol i alluogi rhieni i ddarganfod pa ddarpariaeth y mae eu plentyn yn gymwys i'w chael ar unrhyw adeg. Tudalen 21

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch gofal plant rhwng diwedd absenoldeb mamolaeth a chymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dylai hyn gynnwys amserlenni enghreifftiol, a gwerthusiad o'r ffactorau ariannol ac ymarferol y byddai angen eu hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Tudalen 26

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r meini prawf cymhwysedd yn y Cynnig Gofal Plant i'w gwneud yn haws i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, megis gwaith ansicr, gwaith shifftiau neu waith ar gontractau dim oriau, i gael mynediad at ddarpariaeth. Tudalen 29

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb yn nodi ei chynlluniau i gryfhau canllawiau a deddfwriaeth i sicrhau darpariaeth well, fwy cyson o ysgolion bro ledled Cymru. Tudalen 32

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb yn nodi ei chynlluniau i sicrhau mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion, o ystyried bod y dilyniant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn uwch pan fydd hyn yn digwydd. Tudalen 32

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynnig Gofal Plant estynedig newydd.

- Rhaid i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ddangos sut yr ystyriwyd ac yr ymdriniwyd â phryderon y Comisiynydd Plant ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019.
- Mae'n ofynnol i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sicrhau bod cydraddoldeb yn greiddiol i ddatblygiad y Cynnig Gofal Plant estynedig, ac i alluogi rhanddeiliaid a'r Pwyllgor i graffu ar y graddau y mae hyn wedi'i gyflawni.
- Dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael eu cwblhau a'u cyhoeddi cyn gynted â phosibl ac o leiaf fis cyn i'r Cynnig Gofal Plant estynedig newydd ddod i rym. Tudalen 34

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn ychwanegol atynt. Tudalen 39

Argymhelliad 8. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon cyffredin ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer:

- ei huned gwahaniaethau ar sail hil i gronni sylfaen dystiolaeth ynghylch lefel y gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant; a
- datblygu cynllun gweithredu, gan gynnwys targedau uchelgeisiol, ar gyfer cynyddu nifer y staff o leiafrifoedd ethnig yn y sector. Tudalen 40

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun yn ei hymateb sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gofal plant ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, fel yr hyn y mae Cwlm yn ei ddatblygu, a sicrhau y daw'n rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector. Tudalen 40

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynyddu faint o arian sydd ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru i wella'r ddarpariaeth i blant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol neu gymhleth. Tudalen 44

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ehangu'r cynnig gofal plant dan y Cytundeb Cydweithio i alluogi plant dwy flwydd oed ag anghenion ychwanegol neu gymhleth gael mynediad llawn at ddarpariaeth. Tudalen 44

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i sicrhau y caiff cynllun capasiti tymor hir y sector cyfrwng Cymraeg, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei archwilio fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, ei lunio ochr yn ochr â gwaith ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg. Dylai hyn adlewyrchu'r effaith y mae prinder staff yn ei chael ar y sector cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Tudalen 46

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer adolygiad o sut y mae'n hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector gofal plant a blynnyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut y gellir defnyddio addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod gan y sector ddigon o staff. Tudalen 46

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau cynnydd digonol yn y tâl fesul awr i ddarparwyr dan y Cynnig Gofal Plant i alluogi cynnydd yng nghyflogau'r staff, ac amserlen ar gyfer talu'r cyflog byw gwirioneddol i bob gweithiwr gofal plant, gan ddysgu o'r ffordd yr ymgorfforodd Llywodraeth yr Alban hyn yn ei chynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant. Tudalen 51

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau y caiff ei chynllun gweithlu arfaethedig ei ddatblygu gyda phartneriaid cymdeithasol, a'i fod yn cynnwys ffocws ar wella amodau gwaith yn y sector, yn ogystal â datblygu'r gweithlu. Tudalen 51

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau bod ymgyrch recriwtio gofal plant arfaethedig Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyrraedd ac yn denu grwpiau megis lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gofal plant. Tudalen 51

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i gynnig gofal cofleidiol i bawb, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a all gynnig cyfleoedd i bawb sydd am fanteisio arnynt. Tudalen 55

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i gynnal yr ymgynghoriad llawn ar y Gorchymyn Eithriadau yr ymrwymodd iddo yn 2019 er mwyn ymdrin â phryderon ynghylch yr effaith negyddol y mae wedi'i chael ar ddarparwyr cofrestredig ac ar ddiogelu plant. Tudalen 57

Casgliadau

Casgliad 1. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i ehangu'r Cynnig Gofal Plant presennol i blant dwy flwydd oed, ond rydym o'r farn y bydd cynyddu'r cynnig y tu hwnt i'r 20 awr yr wythnos a gynigir ar hyn o bryd yn galluogi rhagor o rieni i ddychwelyd i'r gwaith, ac felly'n lleihau anghydraddoldebau ymhellach. Tudalen 26

Casgliad 2. Rydym yn dod i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle arfaethedig o ehangu'r Cynnig Gofal Plant fel cyfle i adolygu a lleihau'r cymhwysedd i bob rhiant ennill hyd at £100,000 y flwyddyn. Tudalen 29

1. Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn trafod gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym maes gofal plant a chyflogaeth rhieni yn nhymor yr hydref 2021. Gellir gweld gwybodaeth am gefndir yr ymchwiliad hwn ar [wefan yr ymchwiliad](#)¹.

Casglu tystiolaeth

2. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau sy'n ymgychu ynghylch gofal plant, darparwyr gofal plant, Comisiynydd Plant Cymru, a Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru. Craffwyd ar y dystiolaeth hon yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor ac mewn grwpiau trafod rhwng rhanddeiliaid ac Aelodau. Casglodd tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd sylwadau gan rieni a gweithwyr rheng flaen yn ystod cyfres o grwpiau ffocws a thrafodaethau un-i-un.

3. Darparwyd enghreifftiau o ddarpariaeth gofal plant y tu hwnt i Gymru gan Asiantaeth Sweden ar Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau a Llywodraeth yr Alban. Mae'r astudiaethau achos o Sweden a'r Alban sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn dangos rhai o'r gwersi y gellir eu dysgu gan wledydd eraill.

4. Gan fod rhai agweddau ar y cylch gorchwyl hefyd yn syrthio o fewn cylch gwaith Pwyllgorau eraill y Senedd, ysgrifennodd y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi a Materion Gwledig, i gynnig gweithio ar y cyd. Bu aelodau'r Pwyllgor sydd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor PPIA neu'r Pwyllgor EMG yn gweithredu fel rapporteurs yn ystod yr ymchwiliad, gan holi ynghylch meysydd a godwyd gan y Pwyllgorau hynny yn ystod y sesiynau casglu tystiolaeth. Gellir gweld yr ohebiaeth ar wefan yr ymchwiliad.²

5. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Dirprwy Weinidog") ar 29 Tachwedd 2021.

6. Gellir gweld manylion yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru

7. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru eu Cytundeb Cydweithio yn ystod cwrs yr ymchwiliad hwn ar 22 Tachwedd 2021.³ Mae'r Cytundeb yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn gweithio gyda'i gilydd dros y tair blynedd nesaf ar bolisiau lle mae budd cyffredin. Yn benodol, mae'r adrannau sy'n ymwneud â gofal plant, dyddiadau tymor ysgol, a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn dod o fewn cylch gwaith yr ymchwiliad hwn. Cafwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth cyn y cyhoeddwyd y Cytundeb Cydweithio; lle bo dystiolaeth wedi dod i law ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb, nodwyd hyn yn yr adroddiad.

8. Mae'r ohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â'r meysydd o'r Cytundeb Cydweithio sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn i'w gweld ar wefan yr ymchwiliad.⁴

Cylch gorchwyl

9. Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad oedd ystyried:

- I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant bresennol yng Nghymru yn cefnogi rhieni'n ddigonol, yn enwedig mamau, i gael swydd, aros yn y swydd a symud ymlaen yn y swydd, a pha newidiadau y gallai fod eu hangen i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal plant wrth wneud hyn.
- Pa effaith y mae'r Cynnig Gofal Plant yn benodol wedi ei chael wrth gyflawni amcan Llywodraeth Cymru i "helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio".
- Effaith diffyg argaeledd gofal plant ar lefelau cynhyrchiant Cymru.
- Sut mae trefniadau gofal plant wedi effeithio ar gyflogaeth rhieni yn ystod pandemig COVID-19, yn enwedig mamau? Pa wersi y gellir eu cymhwyso i roi cefnogaeth well yn ystod unrhyw gyfnodau clo yn y dyfodol neu gyfyngiadau pellach.
- P'un a yw'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ddigon hyblyg i gefnogi cyflogaeth rhieni, yn enwedig mamau, mewn gwahanol grwpiau demograffig ac o dan wahanol amgylchiadau.

³ Llywodraeth Cymru, Cytundeb Cydweithio 2021

⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

- Effaith darpariaeth gofal plant ffurfiol o safon uchel ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad, a manteision posibl ymestyn darpariaeth gofal plant i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
- Yr hyn y gall Cymru ei ddysgu o fodelau eraill o ddarpariaeth gofal plant sydd ar waith yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol ac arferion sy'n dod i'r amlwg o ran cefnogi cyflogaeth rhieni, ac i ba raddau y gellir trosglwyddo'r modelau hyn i gyd-destun Cymru.
- Sut y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried goblygiadau ariannol ac ymarferol fel argaeledd gofal plant wrth ddatblygu unrhyw bolisi yn y dyfodol i ymestyn y ddarpariaeth gofal plant.

2. Ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth bresennol

Mae'r ddarpariaeth gofal plant yn amrywio ledled Cymru gan ddibynnu ar y lleoliad, oedran y plentyn, statws cyflogaeth y rhieni, a dewis iaith. Trwy gydol yr ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn trafod y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o'r hyn yr oedd eu plentyn yn gymwys i'w gael. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn yn cael ei waethygu gan drafferthion i ddeall system gymhleth.

Y ddarpariaeth bresennol

10. Ers 2008, bu'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 10 awr o addysg feithrin Cyfnod Sylfaen yr wythnos i bob plentyn yng Nghymru, gan gychwyn o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed nes iddynt ddechrau'r ysgol yn llawn amser.

11. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio yn gymwys i gael 30 awr o ofal plant yr wythnos am ddim ar gyfer plant tair a phedair oed, a hynny ar gyfer 48 wythnos y flwyddyn o dan **Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru**.⁵ Llywodraeth Cymru. Mae yna nifer o feini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun, gan gynnwys bod yn rhaid i bob rhiant yn yr aelwyd fod yn gweithio, rhaid iddynt ennill llai na £100,000 y flwyddyn, a rhaid iddynt ennill o leiaf y Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r isafswm cyflog am eu hoedran am o leiaf 16 awr yr wythnos. Rhwng mis Medi 2019 a Mawrth 2020, fe wnaeth 16,377 o blant yng Nghymru elwa o'r cynnig⁶.

12. Mae rhaglen **Dechrau'n Deg** yn darparu gofal plant am ddim i blant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, a hynny o'r tymor ar ôl eu hail ben-blwydd hyd nes y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, am ddwy awr a hanner y dydd, bum diwrnod yr wythnos (12.5 awr yr wythnos).⁷ Darperir hyn am 39 wythnos y flwyddyn, gydag o leiaf 15 o sesiynau yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn 2019-20, fe wnaeth 7,693 o blant rhwng dwy a thair oed elwa o'r cynnig gofal plant Dechrau'n Deg.

13. Mae Ffigur 1 yn dangos sut y gall faint o ofal plant am ddim y mae gan blant hawl iddo amrywio yn ôl eu hoedran, eu lleoliad a statws cyflogaeth eu rhieni.

⁵ [Llywodraeth Cymru, Gofal Plant i blant 3 a 4 oed](#)

⁶ [Llywodraeth Cymru, Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3](#)

⁷ [Llywodraeth Cymru, Hoffech chi help llaw gan Dechrau'n Deg](#)

Oriau gofal plant a ddarperir bob wythnos *

Dechrau'n Deg:
12.5 awr yr wythnos


Cynnig Gofal Plant:
20 awr yr wythnos

Addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen:
10 awr yr wythnos

Ysgol amser llawn:
30 awr yr wythnos


Plentyn A

- Yn byw mewn Ardal Dechrau'n Deg
- Mae un o'r rhieni yn yr aelwyd yn ddi-waith




Plentyn B

- Nid yw'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg
- Mae un rhiant yn yr aelwyd yn gweithio'n amser llawn
- Mae un rhiant yn yr aelwyd yn gweithio 10 awr yr wythnos




Plentyn C

- Yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg
- Mae'r rhiant sengl yn yr aelwyd yn ennill £25,000 y flwyddyn



Plentyn Ch

- Nid yw'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg
- Mae'r ddau riant yn yr aelwyd yn ennill £30,000 y flwyddyn



Tymor ar ôl
Ail
ben-blwydd

Tymor ar ôl
Trydydd
ben-blwydd

Tymor ar ôl
Pedwerydd
ben-blwydd

* Mae nifer yr wythnosau fesul blwyddyn yn amrywio yn ôl y math o ddarpariaeth

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

14. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu'n rhannol y rhaglen **Rhieni Gofal Plant a Chyflogaeth**, sy'n talu costau gofal plant ar gyfer rhieni cymwys y mae gofal plant yn rhwystr iddynt rhag mynd i'r gwaith. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth un-i-un i rieni nad ydyn nhw mewn gwaith, addysg na hyfforddiant sydd angen gofal plant i'w helpu wrth ennill sgiliau i gael swydd. Gall rhieni cymwys wneud cais drwy Gyrfa Cymru.⁸

15. Yn ogystal â darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU yn darparu **gofal plant di-dreth** i dalu'r ffi a godir gan ddarparwyr preifat.⁹ Am bob £8 y mae rhiant/gwarcheidwad yn ei roi yn y cyfrif, mae Llywodraeth y DU yn cyfrannu £2. Mae'n bosibl y gall teuluoedd **sy'n cael Credyd Cynhwysol** hawlio hyd at 85 y cant o gostau gofal plant yn ôl os ydynt yn gweithio neu os oes ganddyn nhw gynnig swydd,¹⁰ a hynny hyd at uchafswm o £646 y mis am un plentyn, neu £1,108 am ddau neu ragor o blant.

16. Yn ei **Rhaglen Lywodraethu** ar gyfer 2021-26 mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i "*ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant*", yn ogystal â pharhau i gefnogi Dechrau'n Deg.¹¹

17. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cofrestru ac yn archwilio gofal dydd a ddarperir i blant o dan wyth oed am dros ddwy awr y dydd, ac am chwe diwrnod neu fwy y flwyddyn. Dyma'r achos pan mai prif bwrpas y gofal dydd yw gofalu am y plant ac eithrio wrth ddarparu addysg iddynt. Mae Cyfeiriadur Gwasanaethau Gofal yn galluogi rhieni i ddod o hyd i wasanaeth gofal cymdeithasol cofrestredig a gweld adroddiadau arolygon.¹² Mae gofal pob plentyn hyd at 12 oed ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir yn cael ei arolygu ar y cyd gan AGC ac ESTYN.¹³

⁸ Prosiect Llywodraeth Cymru, Rhieni Gofal Plant a Chyflogaeth

⁹ Llywodraeth y DU, Gofal Plant Di-dreth

¹⁰ Llywodraeth y DU, Credyd Cynhwysol a gofal plant

¹¹ Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad

¹² Arolygiaeth Gofal Cymru - Cyfeiriadur Gwasanaethau Gofal

¹³ Arolygiaeth Gofal Cymru - Fframwaith ar y cyd ar gyfer gofal a chwarae plant

Astudiaeth achos: Darpariaeth sefydledig – Sweden

Yn y 1960au, cyflwynodd y gwledydd Nordig bolisiau fel bod mwy o fenywod mewn gwaith â thâl. Mae gofal plant safonol â chymhorthdal, ynghyd ag absenoldeb hael i rieni yn rhan o amcan polisi i gefnogi cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chyfiawnder cymdeithasol. Yn Sweden, mae hyn wedi arwain at newid system. Yn ôl Johan Kaluza o Asiantaeth Sweden ar Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau, mae'r ymrwymiad hirdymor i gynnig darpariaeth gofal plant wedi golygu ei bod "bron yn naturiol" anfon eich plentyn i ddarpariaeth gyn-ysgol.

Yn 2020, bu hanner yr holl blant blwydd oed yn Sweden yn bresennol mewn gweithgareddau cyn-ysgol; cododd y ffigur hwnnw i 90.5 y cant ar gyfer plant dwy oed, 94 y cant o blant tair oed, a dros 95 y cant o blant pedair a phump oed.

Yn Sweden, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ranbarthau ddarparu gweithgareddau cyn-ysgol, a gofal plant â chymhorthdal cyhoeddus i bob plentyn o un oed ymlaen. Mae gan bob plentyn hawl i weithgareddau cyn-ysgol am ddim am o leiaf 525 awr y flwyddyn (tua 15 awr yr wythnos) o dymor yr hydref ymlaen, pan fyddan nhw'n cyrraedd tair oed.

Mae gan Sweden bolisi uchafswm ffioedd i wneud gofal plant yn fforddiadwy; ar gyfartaledd mae teuluoedd yn gwario 4.4 y cant o'u hincwm net ar ofal plant, sy'n llawer is nag yn y DU. Yn 2020, roedd uchafswm y gost fisol fel a ganlyn:

- 3 y cant o incwm misol yr aelwyd ar gyfer y plentyn cyntaf, hyd at uchafswm o 1,478 Krona Sweden (tua £130 y mis)
- 2 y cant o incwm misol yr aelwyd ar gyfer yr ail blentyn, hyd at uchafswm o 986 Krona Sweden (tua £85 y mis)
- 1 y cant o incwm misol yr aelwyd ar gyfer y trydydd plentyn, hyd at uchafswm o 493 Krona Sweden (tua £40-45 y mis)
- Am ddim ar gyfer y pedwerydd plentyn a thu hwnt.

Mae'r dystiolaeth o Sweden yn dangos bod galluogi rhieni di-waith i fanteisio ar ofal plant cyn-ysgol wedi arwain at fwy o fenywod yn gwneud gwaith cyflogedig; mae hyn yn arbennig o wir ymhlith mamau â dau neu ragor o blant. Mae bron i 75 y cant o fenywod rhwng 15 a 64 oed yn Sweden mewn cyflogaeth. Mae hyn yn uwch na'r rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop. Serch hynny, yn yr un modd â gwledydd eraill, mae menywod yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser ac mae gwahanol rywiau yn dal i dueddu i weithio mewn gwahanol alwedigaethau.

Ein barn ni

Yn ôl y dystiolaeth yr ydym wedi ei chael, mae darpariaeth gofal plant yn cynyddu'r cyfleoedd am gyflogaeth â thâl i rieni, yn enwedig mamau. Mae'r astudiaeth achos o'r sefyllfa yn Sweden yn dangos yr effaith gadarnhaol a gaiff gofal plant cyn-ysgol sy'n fforddiadwy, gyda thri chwarter y menywod o oedran gweithio mewn cyflogaeth â thâl. Mae'r system sydd gennym ar waith yng Nghymru yn cynnig peth darpariaeth, ond mae'r dystiolaeth drwy gydol yr adroddiad hwn yn amlygu'r bylchau y mae angen mynd i'r afael â hwy.

Deall system gymhleth

18. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Cynnig Gofal Plant gyda'r **amcan ddatganedig** o "helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio".¹⁴ Fodd bynnag, mewn **dadansoddiad** gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Frontier Economics yn 2016, rhagwelwyd y byddai'n arwain at newid llai nag un pwynt canran yng nghyfraddau cyflogaeth mamau ymhlith y teuluoedd a dargedir.¹⁵

19. Yn ôl y gwerthusiadau a gynhaliwyd o'r Cynnig Gofal Plant¹⁶ gan Ymchwil Arad ar ran Llywodraeth Cymru, er bod rhieni'n fwyfwy ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant, mae yna agweddau arno o hyd nad ydyn nhw'n eu deall yn iawn. Yn ôl y canfyddiadau a welwyd yn y gwerthusiad diweddaraf:

*"[...] er ei bod yn ymddangos bod llawer o rieni'n ymwybodol o'r Cynnig, nad yw llawer yn ei ddeall yn llawn, a gall lefel y ddealltwriaeth fod wedi gostwng hyd yn oed yn ystod 2020 a 2021 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Y pwyntiau penodol y mae rhieni'n parhau i fod yn aneglur yn eu cylch yw'r meini prawf cymhwysedd, y rhaniad rhwng gofal plant ac oriau FPN ac argaeledd darpariaeth a ariennir yn ystod gwyliau'r ysgol."*¹⁷

20. Soniodd Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg, nad oes mecanwaith ar waith i rybuddio rhieni yn awtomatig am y cymorth y mae eu plentyn yn gymwys i'w gael ar yr union adeg y mae ei angen, a bod y system bresennol yn gymhleth.¹⁸ Soniodd am yr heriau sy'n

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Memorandwm Esboniadol

¹⁵ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Opsiynau i Gymru o ran Polisi Gofal Plant

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru

¹⁷ Llywodraeth Cymru, Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 4 (canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg)

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 15 Tachwedd 2021; Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

wynebu rhieni wrth ddeall gwahanol elfennau o gymorth sydd ar gael, a'r dryswch ynghylch yr hyn y gallent fod â hawl iddo:

*"For many, there's a patchwork in terms of the private provision that they may need to use to wrap around the free provision, and some of that provision is available in school settings, in Foundation Phase settings: some of it is not. Some local authorities are able to offer it, some are not. And actually, when I think about my challenge in making that application as a parent, just being a mum at the nursery school gates and talking to many others, particularly those for whom English wasn't their first language, it's quite a difficult system to navigate. There's nothing that necessarily automatically flags to the right people at the right time how you access that support."*¹⁹

21. Dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN) Cymru fod y diffyg gwybodaeth glir yn rhwystr i rieni rhag manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. Ategwyd y farn hon gan arolwg a gynhaliwyd gan WEN Cymru ymhlith ei rwydweithiau aelodau:

*"67% of respondents stated that we need more accessible and transparent information on available childcare provisions. One respondent described the system as "too confusing and complicated." Another respondent reported confusion around what is and is not covered by childcare entitlements, saying that "it makes it very difficult for working parents how the money is divided between the time in school and nursery, i.e. wrap around fees paid out of pocket, not inclusive of meals."*²⁰

22. Ategwyd hyn gan rieni yn ystod trafodaethau grwpiau ffocws, wrth iddynt ddweud ei bod yn anodd gwneud penderfyniadau doeth am addasrwydd darpariaeth gofal plant:

"Ry'n ni'n gwybod wrth ddewis ysgol, mae'r holl adroddiadau Ofsted hyn y gallwn ni edrych arnyn nhw ac nid wyf yn teimlo bod yr un math o wybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer gofal plant [...] dylai fod yr un mor bwysig oherwydd bod y blynyddoedd cynnar hynny o'r pwys mwyaf ar gyfer datblygiad plant."

Cyfrannwr grŵp ffocws, Rhondda Cynon Taf

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 15 Tachwedd 2021

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEN Cymru

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

"Rwy'n gwybod pan oeddwn ar gyfnod mamolaeth ac wedi bwriadu mynd yn ôl i'r gwaith, nid oeddwn yn ymwybodol o warchodwyr plant [...] meithrinfeydd dydd oedd ar gael yn unig ac roeddent ond ychydig y tu hwnt i'm cyllideb ar y pryd. Rwy o'r farn, felly, bod angen i lawer mwy o wybodaeth fod ar gael am yr opsiynau i rieni."

Cyfrannwr grŵp ffocws, Pen-y-bont ar Ogwr²¹

23. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint fod natur ranedig y Cynnig Gofal Plant, sy'n cynnwys o leiaf 10 awr o addysg Cyfnod Sylfaen yr wythnos ac uchafswm o 20 awr o ofal plant, wedi arwain at benbleth ymhlith rhieni pam nad oedd y 30 awr bob tro ar gael yn un lleoliad.²²

24. Dywedodd Sefydliad Bevan nad oes hyd yn oed lawer o ymwybyddiaeth o'r 10 awr o ddarpariaeth gyffredinol.²³ Ategwyd hyn gan dystion a ddangosodd raddau amrywiol o ymwybyddiaeth ynghylch cwrddpas a meini prawf cymhwysedd y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg.²⁴

25. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn amrywio ar draws Cymru, a dywedodd mai un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yw'r diffyg ymwybyddiaeth gan rai rhieni o'r cynnig ei hun neu sut i wneud cais amdano. Cadarnhaodd y bydd angen mynd i'r afael â hyn fel rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a gynhelir gan awdurdodau lleol, sy'n nodi digonolrwydd gofal i rieni sy'n gweithio a rhieni sy'n ceisio cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant.²⁵

Ein barn ni

Yn ôl gwerthusiadau o'r Cynnig Gofal Plant gan Ymchwil Arad, er bod ymwybyddiaeth gyffredinol wedi gwella, mae heriau'n parhau wrth roi gwybod i rieni am y cynnig. Roedd hyn i'w weld yn y dystiolaeth a gawsom. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan nifer o dystion nad yw rhieni'n ymwybodol o'r cymorth gofal plant y gallent fod â hawl iddo, gan gynnwys cyngor a chymorth sydd ar gael drwy eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol. Mae'n debygol y bydd y diffyg ymwybyddiaeth hwn yn arwain at ostyngiad yn y nifer sy'n manteisio ar

²¹ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir y Fflint

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan

²⁴ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

y cynnig. Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol ar blant wrth iddynt golli'r cyfle i elwa o ofal plant cofrestredig o ansawdd, mae rhieni'n colli hawliau ariannol a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae angen cymryd camau i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni. Gellid gwneud hyn trwy sicrhau bod pob cyswllt a wneir gan Awdurdodau Lleol a byrddau iechyd â rhieni newydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth am ofal plant. Byddai rhieni mewn gwaith sy'n gymwys i gael absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb rhiant a rennir yn elwa o gael gwybodaeth well cyn i'r cyfnod absenoldeb hwnnw ddod i ben er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau doeth ynghylch gofal plant a dychwelyd i waith cyflogedig. Yn ogystal â rhoi'r wybodaeth hon i rieni ar adegau allweddol, byddai pob rhiant yn elwa o gael un gwasanaeth gwybodaeth hollgynhwysol i'w galluogi i ddarganfod pa ddarpariaeth y mae eu plentyn yn gymwys i'w chael ar unrhyw adeg.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datgan yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd. Gallai dulliau posibl gynnwys:

- ysgrifennu at rieni newydd neu hybu'r cymorth sydd ar gael pan fydd rhieni'n cofrestru genedigaeth eu plentyn;
- darparu gwybodaeth i rieni mewn digon o amser cyn diwedd absenoldeb mamolaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau doeth ynghylch gofal plant; a
- datblygu un gwasanaeth gwybodaeth hollgynhwysol i alluogi rhieni i ddarganfod pa ddarpariaeth y mae eu plentyn yn gymwys i'w chael ar unrhyw adeg.

3. Ehangu'r Cynnig Gofal Plant

Pan oedd yr ymchwiliad yn mynd rhagddo, cyhoeddwyd Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. O dan y Cytundeb, mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi ymrwymo i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid cyn y cyhoeddiad hwn, a oedd yn dadlau y dylid ehangu'r Cynnig Gofal Plant i gynnwys rhieni plant iau na thair oed, gellir tybio y bydd croeso i hyn yn gyffredinol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dilyn y cyhoeddiad yn ategu hyn, er bod rhai rhanddeiliaid yn dadlau y dylai'r Cynnig Gofal Plant gael ei ehangu ymhellach fyth.

Bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer plant un a dwy flwydd oed

26. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliad yn galw i'r Cynnig Gofal Plant gael ei ehangu. Dywedodd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant fod y ffaith nad oedd y cynnig gofal plant cyffredinol yn cael ei gynnis i blant 2 oed yn gadael llawer o deuluoedd mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt gyfyngu ar y math o waith cyflogedig y gallant ei wneud, a faint y gallant ei wneud, gan olygu bod nifer o deuluoedd yn wynebu tlodi parhaus yn y pen draw.²⁶

27. Soniodd WEN Cymru am y bwlch yn y ddarpariaeth rhwng pen-blwydd cyntaf y plentyn, pan ddaw absenoldeb rhiant a rennir i ben, a chychwyn y Cynnig Gofal Plant pan fydd y plentyn yn 3 oed.²⁷

28. Dywedodd Sefydliad Bevan fod y bwlch hwn yn y ddarpariaeth yn golygu bod rhieni plant dan dair blwydd oed yn gwneud trefniadau amgen ar gyfer gofal plant, ac y gall cost meithrinfeydd a gwarchodwyr plant fod yn rhwystr:

"By far the biggest gap is in provision for under-3 year olds which is the least generous in Britain.²⁸ There is no state-supported care for 0-1 year olds while Flying Start for 2-3 year olds has very limited geographical coverage and does not offer enough care to support most forms of employment. Parents of

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEN Cymru

²⁸ Jarvie, M., Shorto, S., a Parlett, H. (2021) Arolwg Gofal Plant 2021, Coram Family and Childcare

under-3 year olds who want to work must therefore make their own arrangements using private nurseries, childminders or family members."²⁹

29. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch yr effaith y gall y bwlch hwn yn y ddarpariaeth ei chael ar yrfa rhiant. Soniodd tystion am yr anawsterau wrth ddychwelyd i'r gweithle yn dilyn genedigaeth plentyn, a sut mae angen gwneud penderfyniadau cynnar yn ymwneud â gofal plant:

"Rwy o'r farn ei bod yn bwysig caniatáu darpariaeth gofal plant yn gynharach o lawer yn y siwrnai ar yr angen. Rwy'n credu os ydych chi'n cymryd dwy flynedd arall ar ben yr hyn a gymeroch yn barod ac yn aros hyd nes bod eich plentyn yn dair oed, ry'ch chi allan o'r gweithle i bob pwrpas, felly nid yw'n caniatáu ar gyfer gwneud cynnydd, pa bynnag sector ry'ch chi'n gweithio ynddo."

*Cyfrannwr grŵp ffocws, Gwynedd*³⁰

30. Nododd Chwarae Teg fod penderfyniadau ynghylch cyfrifoldebau gofalu yn cael eu gwneud pan fydd absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb rhiant a rennir yn gorffen, ac y gall cymorth sy'n canolbwyntio ar blant tair a phedair oed olygu bod y rhiant yn gadael y gweithlu:

*"Erbyn hyn, mae llawer o rieni eisoes wedi gwneud penderfyniadau ynghylch sut i addasu eu patrymau gwaith i ddarparu ar gyfer cyfrifoldebau gofalu. Mae hyn yn aml yn arwain at fenywod yn lleihau eu horiau neu'n gadael y gweithlu'n gyfan gwbl, gan fod gofal plant i blant o dan dair oed yn parhau i fod yn rhy ddrud."*³¹

31. Dywedodd un tyst, mewn rhai achosion, y gwneir y penderfyniadau hyn mor gynnar ag yn ystod y beichiogrwydd:

"Rwy'n cofio bod yn feichiog ac mae'n ofnadwy dweud... Dywedais wrth fy mam yng nghyfraith a fy mam; os na fyddwch yn gofalu am y babi hwn ddeuddydd yr wythnos, ni allaf fi wneud hyn, ni allaf gael y babi hwn... mae'n amser emosiynol iawn beth bynnag, ond ry'ch chi'n meddwl am gostau gofal plant pan fyddwch chi 10 wythnos yn feichiog."

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan

³⁰ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

*Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*³²

32. Ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb Cydweithio, cododd rhanddeiliaid gwestiynau ynghylch y manylion ynghlwm wrth ehangu'r Cynnig Gofal Plant.

- A fyddai pob plentyn dwyflwydd oed yn cael gofal plant ynteu a fyddai meini prawf cymhwysedd?
- Sawl awr yr wythnos fyddai hyn yn ei gynnwys?
- Pryd y byddai'r trefniant yn cychwyn?
- Gofynnodd rhai rhanddeiliaid sut y byddai'r Cytundeb yn effeithio ar ymrwymiad presennol y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu gofal plant i blant tair a phedair blwydd oed y mae eu rhieni mewn addysg neu hyfforddiant.³³

33. Roedd Rachel Thomas, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, eisiau sicrhau nad oedd unrhyw fwlch gofal plant yn cael ei greu ar gyfer plant tair oed:

*"...with the current Childcare Offer for the total of 30 hours starting from age 3, it will need to be careful that it doesn't create a drop-off at age 3, so that you might get provision that you weren't previously getting under Flying Start at the age of 2, but if you're then not in employment or a specific amount of education and training then you wouldn't be eligible for the current Childcare Offer in the terms that it stands, so there's a real caution there to not give something and then take it away..."*³⁴

34. Cytunodd y Dirprwy Weinidog fod y cysylltiad rhwng darpariaeth i blant dwyflwydd oed a darpariaeth i blant teirblwydd oed yn un o'r materion y byddai angen eu hystyried yn sgil y Cytundeb Cydweithio.³⁵ Aeth ymlaen i ddweud yr hoffai'r Llywodraeth gael system gofal plant gyffredinol i bawb, ond cadarnhaodd fod union fanylion ehangu'r Cynnig Gofal Plant o dan y Cytundeb Cydweithio yn dal i gael eu datblygu.³⁶

³² Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

³³ Crynodeb o'r sesiynau bord gron

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 29 Tachwedd 2021

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 126, 29 Tachwedd 2021

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 153, 29 Tachwedd 2021

Astudiaeth achos: Ehangu trefniadau darpariaeth dysgu cynnar a gofal plant - Yr Alban

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth yr Alban wedi ehangu'r trefniadau dysgu cynnar a'r ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant cyn-ysgol yn dilyn ymrwymiad a wnaed yn 2014. Y prif sbardun ar gyfer hyn oedd gwella canlyniadau i blant, gyda buddion ychwanegol yn sgil creu cyfleoedd i rieni ddychwelyd i'r gwaith, hyfforddiant neu astudiaethau, neu chwilio am gyfleoedd o'r fath.

Rhesymeg Llywodraeth yr Alban dros fuddsoddi mewn addysg gynnar ac ehangu'r cynnig gofal plant yw'r dystiolaeth bod dysgu cynnar o ansawdd uchel yn gysylltiedig â "gwelliant parhaus yng nghanlyniadau gydol oes plant o ran addysg, cyflogaeth ac iechyd", gyda'r buddion mwyaf yn cael eu gweld ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig.

Ers mis Awst 2021, mae Llywodraeth yr Alban wedi darparu:

- Dysgu cynnar a gofal plant am ddim i bob plentyn tair i bedair blwydd oed am 1,140 awr y flwyddyn nes eu bod yn dechrau ysgol amser llawn, ni waeth a yw eu rhieni'n gweithio ai peidio.
- Dysgu cynnar a gofal plant am ddim i blant dwyflwydd oed y mae eu rhieni'n bodloni meini prawf yr Alban ar gyfer prydau ysgol am ddim, am 1,140 awr y flwyddyn.

At ddibenion ehangu'r cynnig gofal plant, mae Llywodraeth yr Alban wedi darparu cyllid ychwanegol o £2 biliwn dros bum mlynedd i dalu am seilwaith gofal plant ychwanegol, staff ychwanegol, ac i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'r holl weithwyr gofal plant sy'n gweithio mewn darpariaeth a ariennir.

Mae gan Lywodraeth yr Alban gynlluniau i ehangu'r trefniadau addysg gynnar a'r ddarpariaeth gofal plant ymhellach, i ddarparu trefniadau dysgu blynyddoedd cynnar am ddim i bob plentyn un a dwy flwydd oed, gan ddechrau gyda phlant o aelwydydd incwm isel, ac i adeiladu system gofal cofleidiol erbyn diwedd tymor presennol Senedd yr Alban.

Ein barn ni

Bydd ehangu'r Cynnig Gofal Plant yn galluogi rhieni (mamau yn bennaf) i ailymuno â'r gweithlu yn gynharach, a thrwy hynny olygu nad ydynt yn colli allan ar dâl, dilyniant gyrfaol, hyder a sgiliau sy'n codi'n ddieithriad yn dilyn cyfnod estynedig allan o'r farchnad lafur.

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn eu Cytundeb Cydweithio i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod hwn yn gam cyntaf i'w groesawu, mae bwlch sylweddol o hyd rhwng terfyn absenoldeb mamolaeth mamau a'r adeg pan fo teuluoedd yn dod yn gymwys i gael cymorth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae pryderon ynghylch sut y bydd y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ehangu yn ymarferol. Rydym yn nodi galwadau gan randdeiliaid y dylai'r Cynnig Gofal Plant gael ei ehangu ymhellach fyth, gyda dyhead gan y Dirprwy Weinidog i gynnig gofal plant am ddim i bawb.

Credwn y dylai'r estyniad i gynnig gofal plant i blant dwyflwydd oed fod yn gam cyntaf felly yng nghynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu gofal plant cyffredinol o ansawdd uchel o'r amser y mae absenoldeb mamolaeth/rhiant yn dod i ben. Dylai'r bwlch hwn gael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru, a dylid cyflwyno cynllun yn manylu sut i fynd i'r afael â hyn.

Casgliad 1. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i ehangu'r Cynnig Gofal Plant presennol i blant dwy flwydd oed, ond rydym o'r farn y bydd cynyddu'r cynnig y tu hwnt i'r 20 awr yr wythnos a gynigir ar hyn o bryd yn galluogi rhagor o rieni i ddychwelyd i'r gwaith, ac felly'n lleihau anghydraddoldebau ymhellach.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch gofal plant rhwng diwedd absenoldeb mamolaeth a chymhwysra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dylai hyn gynnwys amserlenni enghreifftiol, a gwerthusiad o'r ffactorau ariannol ac ymarferol y byddai angen eu hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

Rhieni nad ydynt yn gweithio a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol

35. Er mwyn bod yn gymwys i allu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, rhaid i bob rhiant yn yr aelwyd fod yn gweithio gan ennill llai na £100,000 y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y gallai plentyn y mae gan ei rieni incwm blynyddol cyfun o £199,999 fod yn gymwys, ond nid yw plentyn o deulu rhiant sengl nad yw'n gweithio, neu deulu dau riant lle nad yw un neu'r ddau riant yn gweithio, yn gymwys.

36. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid fod yr uchafswm cyflog o £100,000 fesul rhiant i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn rhy uchel, ac y dylid ei ostwng er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd teuluoedd sydd ei angen yn fwy. Yn ôl WEN Cymru: *"while the Childcare Offer should be subject to an income cap, it is not clear what financial and economic*

*considerations have informed this threshold level and it does appear somewhat high", Aeth ymlaen i amau a fyddai arbedion posibl o addasu'r trothwy yn golygu y gellid ehangu'r cynnig i rieni â phlant iau, neu a ellid defnyddio cyllid o'r arbedion i hwyluso buddsoddiadau mewn meithrinfeydd a fyddai'n sicrhau bod gofal plant hyblyg ar gael yn fwy cyson ar draws awdurdodau lleol gwahanol.*³⁷

37. Canfu ymchwil gan Arad ar ran Llywodraeth Cymru yn 2019 fod cyn lleied â phedwar y cant o rieni sy'n manteisio ar y Cynnig yn ennill dros £52,000 y flwyddyn, ac roedd bron i chwarter yn ennill llai na £10,400.³⁸

38. Soniodd Comisiynydd Plant Cymru am yr anghydraddoldeb hwn, gan ddweud ei bod *"yn debygol bod plant rhieni oedd yn ennill cyflogau uwch eisoes yn cael mynediad i ofal plant o safon uchel."*³⁹ Pwysleisiodd y Comisiynydd:

*"Ni ddylai buddsoddiad mor fawr gan y wladwriaeth mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar eithrio plant rhieni di-waith yn llwyr o'r manteision. Mae hyn yn debygol o ategu anghydraddoldebau yn y canlyniadau i wahanol grwpiau cymdeithasol, ac o ganlyniad mae angen dadansoddi'n drylwyr er mwyn lliniaru unrhyw ganlyniadau niweidiol."*⁴⁰

39. Soniodd y Comisiynydd Plant am dystiolaeth o Astudiaeth Carfan y Mileniwm fod plant o'r teuluoedd tlotaf oddeutu 10 mis y tu ôl i blant o gefndiroedd mwy cefnog o ran eu datblygiad erbyn iddynt droi'n dair blwydd oed.⁴¹

40. Yn yr un modd, dywedodd Llywodraeth yr Alban wrth y Pwyllgor mai'r rhesymeg dros fuddsoddi mewn ehangu darpariaeth gofal plant oedd bod hyn yn cyflawni gwell canlyniadau mewn sgiliau iaith, sgiliau gwybyddol a sgiliau hanfodol eraill, gyda'r budd mwyaf yn cael ei weld ymhlith plant o'r teuluoedd mwyaf difreintiedig.⁴² Cyfeiriodd Llywodraeth yr Alban at dystiolaeth ryngwladol gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) fod rhagor o ddarpariaeth dysgu blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gwella cyrhaeddiad y plentyn mewn blynyddoedd diweddarach; mae dysgu cynnar o ansawdd uchel

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEN Cymru

³⁸ Gwerthuso Gweithredu Cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru: yr Ail Flwyddyn

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru

⁴¹ Canolfan Astudiaethau Hydredol UCL, 'Disadvantaged children up to a year behind by the age of three'

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth yr Alban

yn gysylltiedig â gwelliant parhaus mewn canlyniadau gydol oes ym maes iechyd, cyflogaeth ac addysg.⁴³

41. Roedd Chwarae Teg yn galw am ofal plant am ddim i bob plentyn o'i enedigaeth hyd at bedair oed, ni waeth beth yw statws cyflogaeth ei rieni. Gan gydnabod yr ymdrech a'r arian sydd ei angen i gyflawni hyn, roeddent yn dadlau y byddai'n arwain at Gymru fwy cyfartal a buddion economaidd yn y tymor hir.⁴⁴ Dywedodd Sefydliad Bevan ei bod yn bosibl y gallai plant o aelwydydd incwm isel gael eu heithrio o'r cynnig oherwydd statws cyflogaeth eu rhieni, er mai'r rhieni hynny fyddai'n elwa fwyaf o gael cyflogaeth neu gynyddu eu horiau gwaith.⁴⁵

42. Mae Arolwg Gofal Plant 2021 Coram Family and Childcare yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond chwech y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru a ddywedodd fod ganddynt ddarpariaeth gofal plant ddigonol ar gyfer teuluoedd lle mae rhieni'n gweithio oriau annodweddiadol, a bod hon yn broblem ledled Prydain Fawr.⁴⁶ Dywedodd y tystion rhyngwladol y clywodd y Pwyllgor ganddynt fod hon yn her barhaus yn eu gwledydd hwy. Dywedodd Dr Johan Kaluza o Asiantaeth Sweden ar Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau fod hwn yn fater gwleidyddol byw yn Sweden gan fod y ddarpariaeth yn tueddu i orffen am 18:30 gyda'r nos, er bod gofal plant y tu hwnt i'r oriau hyn mewn rhai ardaloedd.⁴⁷ Dywedodd Llywodraeth yr Alban ei bod wedi edrych ar ffyrdd i ddarparu gofal plant mwy hyblyg y tu allan i'r Cynnig Gofal Plant a gynigai, gan fod llawer o rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol ag incwm is.⁴⁸

43. Codwyd mater darpariaeth gofal plant i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol gan nifer o dystion. Cyfeiriodd Jane O'Toole, Prif Weithredwr, Clybiau Plant Cymru, at glwb gofal plant yng Nghaerdydd fel enghraifft o angen nad yw'n cael ei ddiwallu:

"They are full to capacity because their schools aren't able to give them any more space—this is a private provider—but that means that they can't hold spaces for people on zero-hours contracts, people who are working different hours in different weeks, because that's the nature of a zero-hours contract, as we're fully aware. So, that's affecting in this club in particular - and I'm

⁴³ Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, '[Starting Strong 2017: Key OECD Indicators on Early Childhood Education and Care](#)'

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan

⁴⁶ Coram Family and Childcare, '[Childcare Survey 2021](#)'

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 15 Tachwedd 2021

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 221, 15 Tachwedd 2021

sure that there are other areas across Wales - the black, Asian and minority ethnic communities, low-income families and single mothers."⁴⁹

44. Dywedodd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant Cymru fod teuluoedd incwm isel yn arbennig o debygol o fod mewn gwaith annodweddiadol, a gall y cymhlethdodau hyn fod yn rhwystr i blant yn cael mynediad i leoliadau gofal plant.⁵⁰ Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Penfro wedi gweld cynnydd mewn contractau dim oriau sy'n effeithio ar allu teuluoedd i ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant, a chynnydd o ran tlodi mewn gwaith yn sgil hyn.⁵¹

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan randdeiliaid bod rhieni nad ydynt yn gweithio a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn methu ag elwa o'r Cynnig Gofal Plant, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r cyfle i ehangu'r cynnig i fynd i'r afael â hyn.

Rydym yn cydnabod barn rhanddeiliaid bod yr uchafswm cyflog o £100,000 y rhiant i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn rhy uchel. Er bod y dystiolaeth yn dangos mai dim ond pedwar y cant o'r rhieni a fanteisiodd ar y cynnig a enillodd rhwng £52,000 a £100,000 y flwyddyn, wrth i gyflogau gynyddu dros amser bydd mwy o rieni yn dod o fewn y braced tâl hwn. Ein barn ni yw mai dyma'r amser iawn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn wrth ehangu'r Cynnig Gofal Plant.

Casgliad 2. Rydym yn dod i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle arfaethedig o ehangu'r Cynnig Gofal Plant fel cyfle i adolygu a lleihau'r cymhwysedd i bob rhiant ennill hyd at £100,000 y flwyddyn.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r meini prawf cymhwysedd yn y Cynnig Gofal Plant i'w gwneud yn haws i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, megis gwaith ansicr, gwaith shiftiau neu waith ar contractau dim oriau, i gael mynediad at ddarpariaeth.

Ysgolion bro

45. Mae ysgol fro yn ysgol sy'n '*darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach*'. Ledled Cymru, mae llawer o ysgolion yn darparu rhai gwasanaethau

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 108, 15 Tachwedd 2021

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Penfro

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

cymunedol gan gynnwys addysg i oedolion, cymorth wrth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol.⁵² Rhoddodd adrannau 27 a 28 o **Ddeddf Addysg 2002** bwerau i gyrff llywodraethu ddarparu gwasanaethau i helpu i ddiwallu anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned yn ehangach. Mater i'r ysgolion eu hunain, mewn ymgynghoriad â'u partneriaid, yw datblygu cymaint neu cyn lleied o ddarpariaeth ag sy'n briodol yn eu cymuned. Mae Deddf Addysg 2002 yn rhoi'r grym i gyrff llywodraethu ysgolion ddarparu gofal plant, boed hynny mewn partneriaeth ag eraill neu beidio, ar safle'r ysgol.⁵³

46. Awgrymodd tystion y gallai ysgolion fod â rôl fwy o lawer wrth ddarparu gofal plant, ac y dylid cael mwy o weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal plant. Mae rhai enghreifftiau da o hyn, ond nododd un tyst fod perthynas '*nhw a ni*' yn tueddu i fod rhwng ysgolion a darparwyr gofal plant.⁵⁴ Nododd tyst arall y canlynol:

*"I managed a Flying Start setting on a school site and we had a number of issues – we couldn't be key holders...we were not allowed to use their bins ... we were supposed to open during the school holidays but we couldn't because the caretaker wouldn't allow us access to the site."*⁵⁵

47. Ystyriwyd bod ysgolion bro yn ateb posibl i hyn, ac awgrymodd y cyfranogwyr y dylid dylunio ysgolion newydd gyda gofal plant wedi ei gynnwys. Mynegodd un tyst bryder hefyd mai ychydig iawn o gyfleusterau cymunedol oedd gan ddatblygiadau tai newydd yn aml, a bod anghenion gofal plant yn cael eu hanwybyddu.⁵⁶

48. Dywedodd Rachel Thomas, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, wrth y Pwyllgor fod rhai rhieni, er mwyn manteisio ar gymaint â phosibl o ofal plant am ddim, yn symud eu plant rhwng safleoedd gofal plant yn ystod y dydd, sy'n creu anawsterau ymarferol i riant sy'n gweithio ac sy'n tarfu ar y plentyn.

"Because you've got different aspects of provision under different sets of funding, with the universal part that everyone gets and the 10 or the 12 hours that you can get, and then the 20 hours that comes under the funded formal Childcare Offer, quite often you will see children having to be moved to different settings through the day to access the free provision, and so that

⁵² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr Rhif: 34/2003

⁵³ Llywodraeth Cymru, Ysgolion bro: canllawiau

⁵⁴ Crynodeb o'r sesiynau bord gron

⁵⁵ Crynodeb o'r sesiynau bord gron

⁵⁶ Crynodeb o'r sesiynau bord gron

*can't be conducive to parental employment, if you're going to have to make arrangements to move your child from one setting to another after two hours."*⁵⁷

49. Dywedodd Cwlwm fod "dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg hefyd yn uwch pan fydd Cylchoedd wedi'u lleoli ar safle ysgol (96% o gymharu â 90%)."⁵⁸

50. Cytunodd y Dirprwy Weinidog fod darpariaeth un-safle yn bwysig ac y gallai ysgolion bro gynnig datrysiad:

*"It is very important that we continue our work on community-focused schools, because we want to tackle this issue of the use of schools outside the school day. And it's not just an issue for childcare, because, as far as I can see, it's essential that we have community-focused schools and all the community benefit from the schools, and they are at the heart of the community."*⁵⁹

51. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn bolisi gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ganolbwyntio'n fwy ar y gymuned, a'i bod yn gobeithio y byddai'r ysgogiad i gydnabod gwerth gofal plant ar draws y gymuned yn arwain at hyn.⁶⁰

*"It is essential for childcare that we do have the schools opening up, because of the link between childcare and the schools, and the importance for parents. So, that's why a lot of our developments and the capital funding we've been putting in have been on school sites, and we have to do everything we can to make sure it's successful."*⁶¹

Ein barn ni

Mae darpariaeth un-safle yn bwysig i'r plentyn ac i'r rhiant sy'n gweithio. Mae llawer o ysgolion yn meddu ar y capasiti i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ar eu safleoedd, ac mae angen llawer mwy o gysondeb wrth ddefnyddio adeiladau ysgol at ddibenion ehangach er lles y gymuned gyfan. Rydym yn credu bod ysgolion bro â rôl hollbwysig wrth sicrhau cymaint â phosibl o ddarpariaeth gofal plant integredig ar un safle, gan gynnwys ar gyfer darpariaeth Gymraeg. Fel

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 29 Tachwedd 2021

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwlwm

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 129, 29 Tachwedd 2021

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 133, 29 Tachwedd 2021

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 29 Tachwedd 2021

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

mater o flaenoriaeth, mae angen mynd i'r afael â'r anawsterau sydd ynghlwm wrth symud plant iau o un safle i safle arall ar gyfer agweddau gwahanol ar y ddarpariaeth gofal plant. Er ein bod yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn, rydym yn credu bod angen iddi egluro ei dull yng ngoleuni cyhoeddiadau diweddar ynghylch ehangu gofal plant, gyda golwg ar wneud y gofynion ar ysgolion bro yn rhai gorfodol.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb yn nodi ei chynlluniau i gryfhau canllawiau a deddfwriaeth i sicrhau darpariaeth well, fwy cyson o ysgolion bro ledled Cymru.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb yn nodi ei chynlluniau i sicrhau mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion, o ystyried bod y dilyniant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn uwch pan fydd hyn yn digwydd.

Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019 a hawliau plant

52. Daeth Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru i rym o dan Ddeddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019. Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru bryder *"bod plant o aelwydydd diwaith yn cael eu heithrio o'r Cynnig, gan fod hynny'n debygol o ehangu'r bwlch rhwng y grŵp hwn a'r rhai sydd â rhieni sy'n gweithio o ran parodrwydd i fynd i'r ysgol"*.⁶² Roedd y Comisiynydd o'r farn bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi ei gynnwys yn y Bil yn ddiffygiol:

*"Dylid nodi bod Asesiad Effaith Hawliau Plant (CRIA) Bil Cyllido Gofal Plant 2019 yn amlygu'r elfennau cadarnhaol i'r plant hynny oedd yn rhan o'r cynnig yn unig, ac nad oedd yn ystyried hawliau pob plentyn. O ganlyniad, roedd yn asesiad diffygiol, a dylid dychwelyd ato, nawr bod y polisi ar waith. Roedd y polisi hwn hefyd wedi'i fwriadu fel peilot, felly mae'n amserol ystyried y gwersi a ddysgwyd o hynny, er mwyn targedu'r gefnogaeth a manteision y cyllid mewn modd sy'n cefnogi hawliau plant yn well."*⁶³

53. Pwysleisiodd Rachel Thomas, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, nad oedd yr asesiad effaith a ddaeth ochr yn ochr â'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater yn ddigonol.⁶⁴

54. At hynny, dywedodd y Comisiynydd Plant fod Erthygl 2 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod *"dyletswydd ar bartïon gwladol i sicrhau hawliau pob*

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 29 Tachwedd 2021

plentyn, heb wahaniaethu mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys statws eu rhieni". Ym marn y Comisiynydd, mae polisi gofal plant presennol Llywodraeth Cymru yn bennaf seiliedig ar statws rhieni, a "gellid dadlau nad yw'n cydymffurfio â hawliau plant".⁶⁵

55. Cyfeiriodd Ruth Coombs, Pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, at waith a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a oedd wedi amlygu bylchau cyrhaeddiad a chyfyngiadau'r Cynnig Gofal Plant, ac roedd yn ategu'r pryderon a fynegwyd ynghylch hawliau plant ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.⁶⁶

56. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hawliau plant ers dechrau datganoli, a bod y Llywodraeth yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig.⁶⁷ Ymrwymodd i ystyried hawliau plant wrth ddatblygu'r gwaith o ehangu'r Cynnig Gofal Plant.⁶⁸

Ein barn ni

Nodwn y pryderon a godwyd gan y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch effaith datblygiadau polisi ar hawliau plant. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn llawn y goblygiadau ar hawliau plant yn sgil yr opsiynau gwahanol sydd ar gael wrth ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, a'i bod yn dangos yn glir sut y mae'r hawliau hyn yn rhan annatod o'r broses o ehangu'r Cynnig Gofal Plant.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynnig Gofal Plant estynedig newydd.

- Rhaid i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ddangos sut yr ystyriwyd ac yr ymdriniwyd â phryderon y Comisiynydd Plant ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019.
- Mae'n ofynnol i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sicrhau bod cydraddoldeb yn greiddiol i ddatblygiad y Cynnig Gofal Plant estynedig, ac i alluogi rhanddeiliaid a'r Pwyllgor i graffu ar y graddau y mae hyn wedi'i gyflawni.

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 29 Tachwedd 2021

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 29 Tachwedd 2021

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 197, 29 Tachwedd 2021

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

- Dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael eu cwblhau a'u cyhoeddi cyn gynted â phosibl ac o leiaf fis cyn i'r Cynnig Gofal Plant estynedig newydd ddod i rym.

4. Darpariaeth gofal plant gynhwysol

Yn ôl Sefydliad Bevan, dywed rhieni fod prinder gofal cyfrwng Cymraeg a gofal i blant anabl. Dywed hefyd fod bylchau yn y ddarpariaeth i'r sawl sy'n siarad ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg.⁶⁹ Clywodd y Pwyllgor y pryder hwn yn cael ei adleisio gan rieni a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli amrywiaeth o grwpiau gwahanol yn ystod yr ymchwiliad.

Cymunedau lleiafrifoedd ethnig

57. Pwysleisiodd nifer o dystion faterion yn ymwneud â diffyg staff o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn y sector gofal plant, a'r effaith y gall hyn ei chael ar deuluoedd o'r cymunedau hynny.

58. Dywedodd Shavanah Taj, TUC Cymru, y canlynol: *"we recognise there is a real lack of diversity in the childcare sector itself here in Wales. Wales needs a childcare sector that reflects its population."*⁷⁰ Yn yr un modd, dywedodd ymateb ar y cyd i ymgynghoriad gan Ganolfan Datblygu Cymunedol De Glanyrafon, Trefnu Cymunedol Cymru, a Comunidade Da Lingua Portuguesa Wrecsam y canlynol:

*"There is a lack of staff / providers who speak languages other than English / Welsh. This can cause a significant barrier for migrant families, especially those who are newly arrived in the country. There is lack of communication, or miscommunication, between the provider and family, and this leads to decisions being made about children without the informed consent of parents. This disproportionately affects Black and ethnic minority families."*⁷¹

59. Pwysleisiwyd cynrychiolaeth ethnigrwydd amrywiol yn y gweithlu gan dystion, gan gynnwys un a oedd yn pryderu am y risg na fyddai anghenion ei blant yn cael eu diwallu:

"Byddaf yn ffodus i gael rhywun o fy niwylliant neu fy nghrefydd fy hun yn gofalu am fy mhlant, [...] felly o leiaf rwy'n teimlo'n dawel fy meddwl y byddan nhw'n deall rhai anghenion diwylliannol lle bo hynny'n bosibl."

*Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*⁷²

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 15 Tachwedd 2021

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Canolfan Datblygu Cymunedol De Glanyrafon, Trefnu Cymunedol Cymru, a Comunidade Da Lingua Portuguesa Wrecsam

⁷² Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

60. Dadleuodd athro gofal plant fod gwaith i'w wneud o hyd er bod ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cael ei haddysgu i ddarparwyr rheng flaen:

"Rwy'n dysgu gofal plant fy hun nawr, felly rwy'n gwybod eu bod nhw'n dechrau dysgu llawer am ddiwylliant i weithwyr gofal plant a sut i edrych ar ôl plant o wahanol ddiwylliannau, ond mae rhieni'n dal i boeni amdano."

Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd⁷³

61. Soniodd rhai tystion fod rhwystrau ychwanegol y mae teuluoedd o leiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu gan fod rhai cymunedau'n llai tebygol o ddefnyddio darpariaeth gofal plant. Awgrymodd tystion y gallai'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant wneud mwy i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft gyda'r gymuned Bwylaidd a'r cymunedau sipsiwn, roma a theithwyr. Dywedodd un tyst y canlynol:

"The settings don't always know what the needs of the community are ... I think settings do satisfaction surveys but they don't always have the time and resources to seek out the views of specific groups within their community ... need to make sure settings are marketed which taps into the needs of the community."

62. Cododd Cwlwm y mater hwn hefyd. Dywedodd fod angen cynyddu nifer yr ymarferwyr blynyddoedd cynnar/gofal plant sy'n Ddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig, a hynny fel mater o flaenoriaeth. Bydd rhoi cynlluniau ar waith yn caniatáu mwy o blant i weld eu hil yn cael ei gynrychioli ymhlith eu gofalwyr a'u modelau rôl. Dywedodd fod hyn yn flaenoriaeth mewn addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd y tangynrychiolaeth hanesyddol sy'n parhau hyd heddiw.⁷⁴

63. Tynnodd rhai tystion sylw at y ffaith na fyddai gan rai rhieni o gefndir lleiafrifol rwydwaith teulu lleol i helpu gyda gofal plant, gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar leoliadau gofal plant ffurfiol.

"Fy hen gymdogion; ymfudwyr cenhedlaeth gyntaf oedden nhw. Doedd ganddyn nhw'r un teulu arall yma ac roedd ganddyn nhw ddau o blant, ill dau o dan bump oed... yn y diwedd, gyda'r gost o roi'r ddau ohonyn nhw mewn meithrinfa... fe wnaethon nhw anfon un yn ôl i India i'r neiniau a theidiau ofalu amdani am wyth mis hyd nes bod y plentyn arall yn dechrau yn yr ysgol, er mwyn iddyn nhw allu fforddio byw."

⁷³ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwlwm

Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd

"Roedd gen i yrfa yn ôl yn Ne Affrica, ond pan ddes i yma roedd yn rhaid i mi ildio hynny er mwyn gallu gofalu am fy mhlant oherwydd nad oedd gen i deulu, dim ffrindiau ac oherwydd bod y costau gofal plant mor ddrud, fe fyddwn i yn y bôn wedi bod yn gweithio er mwyn talu gofal plant..."

Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd⁷⁵

64. Dywedodd Ruth Coombs, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, ei bod yn bwysig recriwtio staff o gymunedau mwy amrywiol, a chodi ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau gwahanol o blant ymhlith yr holl weithwyr gofal plant:

"We need to find some people who are respected in their communities that are working in this area, or can champion work in this area, so that people do feel that they're going to be valued. And the other thing that we have to think about also is not simply having appropriate provision for children from ethnic minorities, but also educating more broadly so that parents of children who do not come from an ethnic minority feel as comfortable placing their children with somebody who comes from an ethnic minority background. So, it's not just education within ethnic minority communities; it's got to be wholesale, it's got to be wider than that, otherwise there is a risk of us having siloed provision, and that won't help to build social cohesion and community cohesion, which is hugely important to breaking down discrimination and racism in Wales."⁷⁶

65. Cododd Martyn Jones, Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yr angen am archwiliad gwahaniaeth mewn perthynas â'r diffyg gweithwyr gofal plant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig:

"We simply don't have the data in Wales to make correct assessments and then, obviously, direct resources at what the real problems are in relation to race, and this is a perfect example of it. I think we've all picked up that there's quite strong anecdotal evidence that there's limited take-up and there's limited representation in the workforces providing services, but we do need to

⁷⁵ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 49, 29 Tachwedd 2021

*drill down in far more detail and understand what that looks like, so that we're able to adequately respond."*⁷⁷

66. Cododd Shavanah Taj, TUC Cymru, hiliaeth systemig yn y sector. Yn benodol, roedd yn arbennig o bryderus nad oedd camau i fynd i'r afael â materion yn y sector gofal plant wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft Llywodraeth Cymru:

*"The Race Equality Action Plan, the first draft that went out to public consultation, didn't have a specific childcare section within it, yet many BAME-led women's organisations have actually said that this should have been included, and for some of the childcare provisions that are currently offered, for example, through Women Connect First, there is a big uptake for that support. But the reality is that we need to think about how we consider the issues of systemic racism within the sector itself, because at the moment it is a predominantly white workforce, yet the children and the population of Wales and demographic is very different."*⁷⁸

67. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fwriad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant, fel rhan o'r cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol. Rhestrodd rai o'r camau a gymerwyd eisoes i fynd i'r afael â'r mater:

*"We've provided funding to the Cwlwm childcare consortium to support our vision of an anti-racist Wales. We have given them specific funding to do that. We've also agreed plans with Cwlwm to promote Welsh-medium childcare in ethnic minority communities and to develop resources related to anti-racist principles, including webinars and training to support childcare practitioners. Cwlwm funding also supports the commissioning of Nodau Natur/Nature Notes, an innovative nursery rhymes project in six languages for use in childcare settings to raise awareness of the diversity of Welsh and Welsh heritage, and celebrating communities and cultures that have settled in Wales."*⁷⁹

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 29 Tachwedd 2021

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 15 Tachwedd 2021

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 29 Tachwedd 2021

Ein barn ni

Nid yw'r ddarpariaeth gofal plant bresennol yn diwallu anghenion llawer o grwpiau demograffig gwahanol, ac mae nifer o faterion wedi gwaethygu. Yn ogystal â'r symudiad i ehangu darpariaeth gofal plant am ddim, sydd i'w groesawu, mae'n rhaid cael mwy o gamau gan Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae ar Gymru angen gweithlu gofal plant sy'n adlewyrchu'r boblogaeth, ond mae tystiolaeth anecdotaidd sylweddol nad oes cynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn casglu data a thystiolaeth i lywio ei dull o fynd i'r afael â hyn, a'i bod yn rhoi blaenoriaeth i wneud hynny. Dylai'r uned ddata cydraddoldeb/gwahaniaethau ar sail hil y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w sefydlu wneud y gwaith hwn.

Nododd rhieni ei bod yn bwysig iddynt y caiff anghenion diwylliannol eu plentyn eu cydnabod a'u parchu yn y lleoliad gofal plant, ond nad yw hyn yn digwydd bob amser. Yn benodol, roedd yn destun pryder inni glywed am brofiad rhai teuluoedd o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn ceisio mynd i'r afael â thangynrychiolaeth cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu ac y bydd yn cynnwys gofal plant yn ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, ac rydym yn croesawu hynny. Rydym hefyd yn cydnabod cyllid Llywodraeth Cymru a ddarperir i Cwlwm hyrwyddo gweledigaeth Cymru wrth-hiliol. Mae'r angen i greu gweithlu mwy amrywiol a chynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol o anghenion plant o leiafrifoedd ethnig yn datgan y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr gofal plant ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth.

Clywsom ei bod yn bosibl bod llai o bobl yn manteisio ar y cynnig gofal plant mewn rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig, a bod angen gwneud mwy i gyrraedd rhai grwpiau. Rydym yn cytuno y gallai 'hyrwyddwyr cymunedol' gael eu defnyddio i hyrwyddo'r cynnig gofal plant ac i annog cymunedau lleiafrifoedd ethnig i ddewis gofal plant fel proffesiwn. Hoffem i'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gael eu defnyddio i gynyddu ymgysylltiad â chymunedau lleiafrifoedd ethnig, a chredwn fod cyfle i adeiladu ar arfer da o ardaloedd fel Caerdydd sy'n rhoi gwybodaeth mewn nifer o ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn ychwanegol atynt.

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

Argymhelliad 8. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon cyffredin ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer:

- ei huned gwahaniaethau ar sail hil i gronni sylfaen dystiolaeth ynghylch lefel y gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant; a
- datblygu cynllun gweithredu, gan gynnwys targedau uchelgeisiol, ar gyfer cynyddu nifer y staff o leiafrifoedd ethnig yn y sector.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun yn ei hymateb sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gofal plant ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, fel yr hyn y mae Cwlwm yn ei ddatblygu, a sicrhau y daw'n rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector.

Plant ag anableddau a phlant ag anghenion ychwanegol neu gymhleth

68. Ar ôl i'r Pwyllgor orffen cymryd tystiolaeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £18 miliwn i gryfhau'r cymorth i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).⁸⁰ Bydd £8 miliwn yn cael ei ddefnyddio i symud dysgwyr o'r hen system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i'r system ADY newydd, ac mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer meithrinfeydd. Dyrennir £10 miliwn i gefnogi dysgwyr ag ADY sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig, ond nid yw'n glir a fydd hyn yn cynnwys addysg feithrin Cyfnod Sylfaen.

69. Mae'r ddarpariaeth gofal plant i blant ag anableddau wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf. Nododd WEN Cymru ffigurau sy'n dangos cwymp syfrdanol o 31 y cant yn 2020 i 19 y cant yn 2021, a bod 38 y cant o awdurdodau lleol yn adrodd nad oes ganddynt ddigon o ofal plant i blant anabl yn unman yn eu hawdurdod lleol.⁸¹

70. Soniodd tystion am eu pryderon bod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer nifer o grwpiau, gan gynnwys plant ag anableddau, gan ei gwneud yn anodd i rieni gael gofal plant priodol. Er enghraifft, tynnodd Cwlwm sylw at y ffaith mai *"dim ond 47% o'r boblogaeth gymwys sy'n defnyddio'r cynnig, ac mae 3% o'r ceisiadau sydd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol."*⁸²

⁸⁰ **£18 miliwn i gryfhau'r cymorth i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (llyw.cymru)**

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEN Cymru

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwlwm

71. Dywedodd Shavanah Taj, TUC Cymru y canlynol: *"for disabled children, childcare needs to be much more accessible and suitable [...] so, I would say that the Welsh Government needs to urgently look at accessibility."*⁸³

72. Ateir hyn gan Ganolfan Datblygu Cymunedol De Glanyrafon, Trefnu Cymunedol Cymru a Comunidade Da Lingua Portuguesa Wrecsam, a ddywedodd, ar gyfer rhieni sydd â phlant ag anableddau, y gall fod bron yn amhosibl dod o hyd i ddarparwr gofal plant priodol, gan ychwanegu bod estyn hawl i ofal plant yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas â phlant ag anableddau.⁸⁴

73. Rhannodd un rhiant ei brofiad:

*"Mae fy merch 8 mis oed wedi cael diagnosis o gyflwr niwrolegol sy'n cyfyngu ar ei bywyd, sy'n golygu ei bod yn ansefydlog iawn lawer o'r amser a bydd ganddi anableddau dysgu difrifol ac efallai na fydd hi byth yn cerdded, siarad neu hyd yn oed yn eistedd i fyny. Bydd ei bywyd hefyd yn fyrrach na'r hyn sy'n arferol. Rwy'n ôl yn y gwaith ddeuddydd yr wythnos ar hyn o bryd ond yn ôl amser llawn ym mis Ionawr ac mae'r feithrinfa a ddewiswyd gennym (prif ffrwd) yn ymwybodol o'i chyflwr. Maen nhw wedi cytuno y byddan nhw'n ei derbyn ond bydd yn rhaid iddyn nhw weld sut fydd pethau'n mynd. Os na allan nhw ymdopi â hi oherwydd eu cymarebau staff, yna bydd yn rhaid iddyn nhw gael y sgwrs honno â ni."*⁸⁵

Tystiolaeth ysgrifenedig gan riant o Gaerdydd

74. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol a chymhleth *"fel eu bod yn gallu manteisio ar ofal plant ar sail gyfartal a chael cymorth sydd wedi'i deilwra i'w gofynion."*⁸⁶ Fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant, mae Llywodraeth Cymru yn darparu Grant Cymorth Ychwanegol i ddarparu darpariaeth gynhwysol i blant ag anghenion ychwanegol.⁸⁷

75. Dywedodd y Dirprwy Weinidog, ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ac ychwanegol, ei bod yn gwbl hanfodol eu bod yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill, ac mae'n rhaid ei gwneud

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 15 Tachwedd 2021

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, CDCDG, TCC ac CDLPW

⁸⁵ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

⁸⁷ Llywodraeth Cymru, [Canllawiau ar gyfer Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant](#)

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

mor hawdd â phosibl iddynt gael y ddarpariaeth a ariennir gan y Llywodraeth.⁸⁸ Er gwaethaf hyn, cyfaddefodd y Dirprwy Weinidog fod llawer mwy i'w wneud: *We absolutely accept that [...] the facilities are not spot on for all children with complex needs and who are disabled.*⁸⁹

76. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod cyfyngiadau oherwydd y pandemig yn golygu ei bod yn bosibl na fydd rhai asesiadau wyneb yn wyneb o ddatblygiad plant wedi cael eu cynnal, a'i bod yn bosibl y bu peth oedi nas sylwyd arno.⁹⁰ Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cronfa Datblygu Plant dros dro a Chynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws gyda £11.5 miliwn ar gael i awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion datblygiadol yn cael eu nodi.

77. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint y canlynol: *"reduction in face to face delivery of many services has increased isolation for families with children who have ALN [additional learning needs] and/or disability."*⁹¹

78. Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae *pandemig y coronafeirws wedi amlygu'r anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli, ac wedi eu gwaethygu a'u dwysáu.*⁹² Dywedodd Ruth Coombs fod plant anabl a phlant o deuluoedd anabl ymhlith y rhai lleiaf tebygol o fod yn yr ysgol. Hefyd, dywedodd y canlynol: *"disabled parents are more likely to be in low-paid, insecure work, which was the work that shut down, or the work where they actually couldn't work from home and so were at more risk of bringing home coronavirus into the family."*⁹³

79. Roedd Cwlwm yn cytuno bod *"teuluoedd â phlant anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi".* Galwodd i ddull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi ddarparu *"cyfleoedd gofal sydd ag addysg gynnar ddigonol ac addas i bob plentyn, waeth beth yw'r math o anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd sydd ganddynt", sy'n golygu "pwyslais newydd sy'n blaenoriaethu cefnogi teuluoedd a'r sector gofal gydag addysg gynnar."*⁹⁴

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 160, 29 Tachwedd 2021

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 29 Tachwedd 2021

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir y Fflint

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 29 Tachwedd 2021

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwlwm

80. Nododd Mudiad Meithrin enghraifft o riant plentyn ag awtistiaeth a oedd yn cael trafferth dod o hyd i gymorth yn ystod y cyfnod clo.

"Roedd y cyfnod clo yn ofnadwy. Dim help ar gael yn unman a Dafydd yn methu ymdopi gyda'r newid... Ry'n ni wir angen gweld ein therapydd iaith wyneb yn wyneb ond dyw hyn ddim ar gael ar y funud... Fe ddylai plant awtistig gael yr un driniaeth â phlant gweithwyr allweddol yn ystod cyfnod clo yn fy marn i. Mae hunanynsu yn hunllef. Bu'n rhaid i ni wneud ddechrau hydref wrth aros canlyniad prawf Covid ac fe gymrodd ryw fis i Dafydd⁹⁵ ddod dros y peth. Dylai plant awtistig a'u teuluoedd gael profion cyflym."*⁹⁶

81. Fodd bynnag, wrth i gyfyngiadau gael eu codi, mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi gwella rywfaint. Er enghraifft, croesawodd y Comisiynydd Plant *"y ffaith bod meini prawf gweithwyr allweddol wedi cael eu gwneud yn fwy 'hyblyg' yn ystod cyfnodau clo dilynol, er nad dyna brofiad pob teulu o reidrwydd."*⁹⁷

82. Awgrymodd rhanddeiliaid nifer o atebion a gwelliannau. Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru y dylai'r tasglu anabledd a sefydlodd Llywodraeth Cymru edrych ar ofal plant fel mater hollbwysig, a bod gan y grŵp hwn wybodaeth arbenigol y gellir ei defnyddio i gasglu rhagor o dystiolaeth.⁹⁸

83. Awgrymodd Cwlwm fod *"diffyg un gyfundrefn genedlaethol"* yn rhwystro pobl ag anghenion ychwanegol a chymhleth rhag cael darpariaeth ddigonol ac roedd yn gobeithio y *"bydd y newidiadau rydyn yn eu gweld ar y funud i'r system anghenion dysgu ychwanegol yn help i sicrhau bod rhieni yn gallu cael at y gefnogaeth maen nhw ei hangen i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn darpariaeth gofal plant."*⁹⁹

84. Yr ateb a nodwyd fwyaf oedd cynyddu cyllid. Galwodd Cwlwm i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid a chymorth ar gael i ddatblygu a chynnal darpariaeth i blant ag anghenion cymhleth, a sicrhau bod yr holl ddarpariaeth gofal plant yn gynhwysol ac yn hygyrch. Cytunodd Catherine Fookes, Cyfarwyddwr, WEN Cymru, fod y peth pwysig yn ymwneud â buddsoddi mewn darpariaeth i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl anabl.¹⁰⁰

⁹⁵ Newidiwyd yr enw am resymau cyfrinachedd

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Mudiad Meithrin

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 15 Tachwedd 2021

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 15 Tachwedd 2021

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 15 Tachwedd 2021

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

Ein barn ni

Ein barn ni Rydym yn cytuno ag uchelgais y Dirprwy Weinidog i sicrhau y gall plant ag anableddau, neu anghenion ychwanegol neu gymhleth, gael gofal plant ar sail deg a chael cymorth wedi'i deilwra yn ôl eu gofynion. Mae angen mynd i'r afael, fel blaenoriaeth, â'r dirywiad yn y ddarpariaeth i blant ag anableddau rhwng 2020 a 2021.

Rydym yn cytuno ag asesiad y Comisiynydd Plant o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) y *"dylai unrhyw ddarpariaeth gofal plant sy'n cael ei hariannu gan y wladwriaeth fod o safon uchel a helpu plant i wireddu ystod o hawliau, gan gynnwys cymorth ychwanegol os oes ganddynt anabledd (Erthygl 23) a chael eu hamddiffyn rhag niwed (Erthygl 39)." Er i Lywodraeth Cymru fabwysiadu CCUHP yn ffurfiol, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth o bob rhan o'r sector sy'n nodi bod problemau gyda'r cynnig gofal plant i blant ag anghenion ychwanegol a chymhleth wedi gwaethygu yn ystod y pandemig.¹⁰¹*

Rydym yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn drwy Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant, a'r Gronfa Datblygiad Plant dros dro a Chynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y coronafeirws, ond rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynyddu faint o arian sydd ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru i wella'r ddarpariaeth i blant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol neu gymhleth.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ehangu'r cynnig gofal plant dan y Cytundeb Cydweithio i alluogi plant dwy flwydd oed ag anghenion ychwanegol neu gymhleth gael mynediad llawn at ddarpariaeth.

Darpariaeth cyfrwng Gymraeg

85. Mynegodd tystion bryder cyffredinol bod mynediad at ddarpariaeth gofal plant Gymraeg, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg sydd wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, yn gyfyngedig ar draws pob ystod oedran, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru *"wedi buddsoddi £81m o gyllid cyfalaf mewn safleoedd gofal plant yn ystod y cyfnod 2019-2023, a thros*

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru

£39m yn cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd".¹⁰² Esboniodd un rhiant o Sir Ddinbych na allai "ddod o hyd i warchodwr plant a oedd yn siarad Cymraeg felly dyna pam aeth hi i feithrinfa."¹⁰³

86. Tynnodd Mudiad Meithrin sylw at y ffaith i'r Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant (Blwyddyn 2) ddatgelu na fu modd i 11 y cant o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg ddod o hyd i ddarparwr gofal plant Cymraeg addas.¹⁰⁴ Nododd Cwlwm y gall y diffyg darpariaeth Gymraeg hwn weithiau arwain at ddewis addysg Saesneg gan rieni, hyd yn oed os mai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r dewis cyntaf.¹⁰⁵

87. Awgrymodd Cwlwm fod gwella darpariaeth Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyflawni nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin, ei bod yn "bwysig meddwl am sut mae'r cynnig gofal plant yn cydgordio ac yn cydgyllunio â strategaeth 'Cymraeg 2050', a'n bod ni cymryd o ddifrif y bwlch yna o 11 y cant i 17 y cant o deuluoedd sy'n methu â chael darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg."¹⁰⁶

88. Mae Mudiad Meithrin yn cytuno bod "lleoliadau gofal plant yn wynebu heriau digynsail o ran recriwtio staff, yn enwedig staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Ynghyd â hyn, collir nifer o staff o'r sector oherwydd pwysau gwaith sy'n anghymharus â'r cyflogau a gynigir." Dywedodd Mudiad Meithrin mai'r cam cyntaf i godi statws y gweithlu fyddai "cynyddu'n sylweddol" y taliad i ddarparwyr y Cynnig Gofal Plant uwchlaw'r £4.50 yr awr fesul plentyn a gynigir ar hyn o bryd.¹⁰⁷

Ein barn ni

Clywsom am ddiffyg cyffredinol y ddarpariaeth gofal plant Gymraeg, ac anghysondeb daearyddol y ddarpariaeth bresennol. Mae'n destun pryder bod hyd at 17 y cant o ymatebwyr arolwg Arad yn nodi nad oeddent yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth Gymraeg. Soniodd y rhai a siaradodd â ni am broblemau recriwtio a chadw staff yn y gweithlu, gan nodi bod llawer o bobl wedi cael eu denu gan y cyflogau uwch sydd ar gael mewn ysgolion a sectorau eraill.

Roedd yn destun pryder inni clywed bod diffyg argaeledd darpariaeth Gymraeg yn agos at safleoedd ysgolion yn golygu bod rhieni yn derbyn darpariaeth Saesneg o reidrwydd, yn

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

¹⁰³ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Mudiad Meithrin

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwlwm

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 119, 15 Tachwedd 2021

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Mudiad Meithrin

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

hytrach na'i dewis. Bydd datrys y mater hwn ynghylch darpariaeth Gymraeg yn sicrhau buddion sylweddol, gan gynnwys cyfrannu at nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi rhaglen weithredu i fynd i'r afael â bylchau o ran darpariaeth gofal plant Gymraeg, a nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau y gall pob rhiant sydd am gael darpariaeth gofal plant Gymraeg wneud hynny.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i sicrhau y caiff cynllun capasiti tymor hir y sector cyfrwng Cymraeg, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei archwilio fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, ei lunio ochr yn ochr â gwaith ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg. Dylai hyn adlewyrchu'r effaith y mae prinder staff yn ei chael ar y sector cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer adolygiad o sut y mae'n hyrwyddo gyrfaedd yn y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut y gellir defnyddio addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod gan y sector ddigon o staff.

5. Cynaliadwyedd y sector a materion am y gweithlu

Mae tystiolaeth gan randdeiliaid yn awgrymu bod gweithlu ansefydlog, heb ddigon o dâl na gwerthfawrogiad, yn gwaethygu'r trafferthion wrth ateb y galw am ddarpariaeth yn y sector gofal plant. Fel y dywedodd un gweithiwr rheng flaen:

"Ry'n ni ar gontractau oriau sero ac yn gwarchod y dyfodol."

*Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*¹⁰⁸

89. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth drwy gydol yr ymchwiliad gan randdeiliaid ynglŷn â'r anawsterau o ran cydbwysio anghenion gofal plant â chyflogaeth. Mewn rhai achosion, dywedodd rhieni wrth y Pwyllgor eu bod wedi dewis dod yn warchodwyr plant cofrestredig fel ffordd o ddatrys y benbleth hon. Dywedodd gweithwyr gofal plant, darparwyr ac undebau llafur oll wrth y Pwyllgor am eu pryderon bod gwaith ansefydlog a chyflog isel yn rhy gyffredin yn y sector.

90. Dywedodd Shavanah Taj, TUC Cymru, fod y sector yn sicr yn dibynnu ar weithwyr ar gyflog isel ac, yn amlach na pheidio, mae llawer ohonynt ar gontractau gwaith ansefydlog.¹⁰⁹ Hefyd, soniodd am waith cynllunio'r gweithlu yn ehangach, gan nodi na ddatblygwyd y cynllun gweithlu presennol mewn partneriaeth ag undebau llafur, a bod angen ystyried cyflog a thelerau ac amodau, yn ogystal â hyfforddiant a chymwysterau, wrth gynllunio'r gweithlu.¹¹⁰

91. Dywedodd darparwyr gofal plant hefyd fod cyflog isel yn y sector yn cyfrannu at brinder llafur, ac yn galw am gynnydd yn y cyllid fesul awr y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i leoliadau sy'n darparu'r Cynnig Gofal Plant. Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Mudiad Meithrin, mai'r:

"[...] hyn dŷn ni angen ydy gweithlu proffesiynol, cymwys, sydd yn cael cydnabyddiaeth ariannol o'r hyn maen nhw'n ei wneud, ac felly dŷn ni'n teimlo ei bod hi'n amserol hefyd inni fod yn edrych ar gynyddu y cyfradd cyllido drwy'r cynnig gofal plant, ac yn cefnogi'r symudiad tuag at ei gynyddu o i o leiaf £5 yr awr. Mae yna awgrym bod hynny'n debygol iawn o ddigwydd, ond mae'r gyfradd cyllido wedi aros yn ystyfnig ar £4.50 yr awr ers

¹⁰⁸ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 15 Tachwedd 2021

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 15 Tachwedd 2021

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

pedair blynedd a mwy, ac mi fyddai hynny, yn ei dro, yn helpu i fuddsoddi ymhellach yn y maes, yn y gweithlu ac o safbwynt adnoddau a gweithgareddau i'r plant hefyd.”¹¹¹

92. Esboniodd rhiant mai cost gofal plant oedd y cymhelliant i rai rhieni ailhyfforddi fel gwarchodwyr plant, i ddiwallu eu hanghenion gofal plant ac ennill incwm ar yr un pryd:

“... unwaith i mi gael fy nhrydedd ferch, roeddwn i eisiau bod gartref, felly es i yn syth o gyfnod mamolaeth i fod yn warchodwr plant [...] ac roedd hynny am resymau ariannol fel y dywedais, dim ond achos costau gofal plant...”

Cyfrannwr grŵp ffocws, Sir Ddinbych¹¹²

93. Nid oedd y dull gweithredu hwn yn diwallu anghenion pob rhiant. I eraill, nid oedd gweithio yn y sector hyd yn oed yn eu galluogi i fforddio gofal plant:

“Mae costau gofal plant i weld mor uchel ac nid yw gweithwyr gofal plant yn cael eu talu llawer. Mae gwahaniaeth enfawr yn hynny o beth. [...] Gwelais yn rhywle na allai gweithiwr gofal plant fforddio rhoi ei phlentyn yn y feithrinfa y mae'n gweithio ynddi.”

Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd¹¹³

94. Soniodd tystion eraill am y lefelau cyflog isel yn y sector gofal plant; dywedodd un tyst fod y swydd *“fel un â'r un cyflog ag Aldi, ond â llawer mwy o gyfrifoldeb”*, a dywedodd un arall nad oedd modd bod ar eich ennill, gan fod angen cyflogau gwell, ond bod angen cadw'r costau i rieni mor isel â phosibl.¹¹⁴

95. Clywodd y Pwyllgor fod cyflogau isel wedi arwain at brinder staff yn y sector, gan fod staff wedi gadael i weithio mewn swyddi â chyflog gwell. Er bod cyfranwyr o'r farn mai mater ledled y DU yw hyn, soniodd cyfranwyr hefyd am drafferthion penodol wrth recriwtio digon o staff ym maes darpariaeth gofal plant Gymraeg. Ymhlith y ffactorau a oedd yn effeithio ar hyn oedd diffyg siaradwyr Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru, staff cymwysedig yn symud i ysgolion, sydd â chyflog ac amodau gwell, a chymhlethdodau ynghylch cymwysterau.

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 15 Tachwedd 2021

¹¹² Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹¹³ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹¹⁴ Crynodeb o'r sesiynau bord gron

96. Clywodd y Pwyllgor alwad am godiad cyflog a mwy o sefydlogrwydd i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector gofal plant, gan gynnwys awgrymiadau gan rieni a gweithwyr rheng flaen i wella'r sefyllfa, fel a ganlyn:

- Cynyddu'r gyfradd fesul awr, sef £4.50, y mae Llywodraeth Cymru yn ei thalu i ddarparwyr gofal plant mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant, gan y byddai hyn yn galluogi darparwyr i dalu cyflogau uwch, ac i helpu gyda chostau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a gwiriadau'r GDG.
- Mwy o gyrsiau gofal plant mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o ofal plant fel gyrfa.
- Cysylltu'r 30 awr o wirfoddoli ar gyfer Bagloriaeth Cymru â darpariaeth gofal plant, hefyd i godi ymwybyddiaeth o ofal plant fel gyrfa.
- Cynnal ymgyrch recriwtio bwrpasol i fynd i'r afael â phrinder staff mewn meysydd penodol.¹¹⁵

97. Dywedodd Chwarae Teg fod ar Gymru angen *"gofal plant llawn amser am ddim, o ansawdd da i bob plentyn 0-4 oed"*. Wrth gydnabod rhai o'r anawsterau i gyflawni'r nod hwn, awgrymodd mai cam tuag ato fyddai *"Creu llwybr dilyniant clir i'r rhai hynny sy'n ymuno â'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n arwain at gymwysterau lefel gradd."*¹¹⁶

98. Dywedodd Alison Cumming, Cyfarwyddwr, Dysgu Cynnar a Gofal Plant, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth yr Alban wedi cymryd camau i sicrhau talu'r cyflog byw gwirioneddol fel rhan o'r trefniadau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant.¹¹⁷ Nododd rai o'r heriau wrth wneud hyn:

"we've had a big focus on seeing how we can secure payment of at least the real living wage to all registered childcare workers who are delivering that funded entitlement. There are some legal and competence challenges around how we secure that, because the Scottish Parliament doesn't have devolved competence over employment law, so there are ways that we use through the national standards and through local authority commissioning arrangements, and we've set out guidance for local authorities on how, through their commissioning and contracting practices, they can ensure that

¹¹⁵ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 229, 29 Tachwedd 2021

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

there are fair work practices in all the private and third sector settings that deliver the funded entitlement."¹¹⁸

99. Dywedodd Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru y canlynol:

*"As part of our longer term early childhood education and care planning, we'll develop a plan for the workforce, which will detail the support and investment required. And while some of that will be discussed in relation to increasing the provision for two year olds, it will also be part of the longer term approach."*¹¹⁹

Ein barn ni

Mae'r pryderon mwyaf ynghylch recriwtio a chadw staff yn ymwneud â lefel isel y cyflog, a thelerau ac amodau gweithwyr gofal plant, y mae darparwyr, gweithwyr ac undebau am iddynt gael eu gwella. Mae rôl gweithwyr gofal plant yn natblygiad y blynyddoedd cynnar yn hanfodol; ond nid yw'r cyflog yn cyfateb i gyfrifoldebau'r rôl. Dywedodd darparwyr wrthym fod cynyddu'r tâl fesul awr a gânt dan y Cynnig Gofal Plant yn ffordd dda o roi hwb i gyflogau, er mwyn denu pobl newydd i'r sector a gwella cyfraddau cadw staff yn y gweithlu presennol.

Roedd yn destun pryder gennym glywed tystiolaeth bod rhai rhieni wedi dewis gofal plant fel gyrfa oherwydd na allent dalu cost gofal plant pan fyddant am ddychwelyd i sectorau eraill o'r gweithlu. Dylai'r nod fod i'r rhai sy'n mynd i'r gweithlu gofal plant wneud hynny oherwydd eu bod o'r farn ei fod yn ddewis gyrfa cadarnhaol a deniadol. Dylid cymryd camau i hyrwyddo'r yrfa hon i blant oedran ysgol ac oedolion, drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio ac archwilio'r opsiwn o gynnwys gofal plant yn y cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant, ein barn ni yw y dylid cynnal ymgyrch recriwtio i dargedu'n benodol y grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Os bydd yn llwyddiannus, bydd dau ddiben i hyn, sef lleihau swyddi gwag yn y sector a gwella amrywiaeth y gweithlu.

Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithlu sy'n nodi'r cymorth a'r buddsoddiad sy'n ofynnol ar gyfer addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar a gwaith cynllunio yn y tymor hwy. Byddwn yn monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun, gan gynnwys sicrhau bod digon o gyllid iddo gael ei gyflawni'n llawn.

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 229, 15 Tachwedd 2021

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 29 Tachwedd 2021

Yn yr un modd, rydym yn croesawu ymgyrch recriwtio gofal plant arfaethedig Gofal Cymdeithasol Cymru y mae brys amdani yn sgil y prinder staff presennol, ac rydym yn awgrymu y bydd angen mwy o adnoddau a ffocws er mwyn bod yn llwyddiannus.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau cynnydd digonol yn y tâl fesul awr i ddarparwyr dan y Cynnig Gofal Plant i alluogi cynnydd yng nghyflogau'r staff, ac amserlen ar gyfer talu'r cyflog byw gwirioneddol i bob gweithiwr gofal plant, gan ddysgu o'r ffordd yr ymgorfforodd Llywodraeth yr Alban hyn yn ei chynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau y caiff ei chynllun gweithlu arfaethedig ei ddatblygu gyda phartneriaid cymdeithasol, a'i fod yn cynnwys ffocws ar wella amodau gwaith yn y sector, yn ogystal â datblygu'r gweithlu.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau bod ymgyrch recriwtio gofal plant arfaethedig Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyrraedd ac yn denu grwpiau megis lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gofal plant.

6. Gofal plant i blant oedran ysgol

Mae rhieni sy'n gweithio yn wynebu heriau sylweddol wrth ddod o hyd i ofal plant i blant oedran ysgol cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol, ac yn ystod gwyliau ysgol. Tynnodd Sefydliad Bevan sylw at y ffaith bod bylchau trawiadol yn argaeledd gofal plant yn ystod y gwyliau ysgol.¹²⁰

Dan y Cytundeb Cydweithio, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £2 filiwn mewn cyllid i hyd at 14 o ysgolion gymryd rhan mewn cynllun peilot i ddiwygio'r diwrnod ysgol.¹²¹ Bydd yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn darparu gweithgareddau pwrpasol am bum awr ychwanegol yr wythnos yn ystod tymor y gwanwyn yn 2022.

Gofal plant cofleidiol ac yn ystod y gwyliau

100. Cynhaliodd y sefydliad ymgyrchu Mother Pukka a TUC Cymru arolwg ledled y DU ar heriau rheoli gofal plant a gwaith yn ystod gwyliau ysgol, a gafodd fwy na 36,000 o ymatebion.¹²² Dywedodd Shavanah Taj, TUC Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd bron traean o'r ymatebwyr â digon o ofal plant ar gyfer y gwyliau haf chwe wythnos. Cyfeiriodd Cerys Furlong, Chwarae Teg, at ei phrofiad ei hun o ddod o hyd i ofal plant yn ystod y gwyliau ysgol:

"I just remember the nightmare, that sense of sinking doom a month or so out from the school holidays, just thinking, 'How the hell are we going to do this?' and try and remain and give a professional impression at work still. That's the reality that so many people are facing. [...] And even where you perhaps financially can access the holiday support on offer, it's quite competitive and difficult to get into some things. It's hugely reliant on people having their own transport..."¹²³

101. Esboniodd un rhiant fod y gofal plant yr oedd wedi'i ddefnyddio cyn i'w phlentyn ddechrau'r ysgol wedi dod yn broblem wedyn:

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan

¹²¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Diwygio'r Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol, 9 Rhagfyr 2021

¹²² 'Summer holiday childcare: no let-up for working mums'

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 49-50, 15 Tachwedd 2021

"Unwaith iddi fynd i'r ysgol amser llawn, ni allai honno ddiwallu fy anghenion oherwydd na allai gludo'r plentyn i'r ysgol, oherwydd ei bod yn cludo plant i ysgol wahanol ac yna roedd yn rhaid i mi fynd ar ofyn ffrindiau gwahanol."

*Cyfrannwr grŵp ffocws, Rhondda Cynon Taf*¹²⁴

102. Dywedodd Catherine Fookes, WEN Cymru fod 25 y cant o fywyd plentyn ysgol (13 wythnos y flwyddyn) ar wyliau, a bod angen i'r ddarpariaeth gofal plant yn ystod y gwyliau, am y rheswm hwn, gael ei newid a'i blaenoriaethu¹²⁵.

103. Soniodd WEN Cymru sylw am argaeledd a hyblygrwydd cyfyngedig gofal plant cofleidiol ac yn ystod gwyliau ysgol, gan nodi'r canlynol:

*"the common model of 'core hour' provisions between 8am and 5pm and only during term time are not sufficient to accommodate the working lives of many women in Wales."*¹²⁶

104. Canmolodd Rachel Thomas, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, lwyddiant cynllun peilot Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru yn ystod haf 2021:

*"We were really pleased to see the Summer of Fun, the Haf o Hwyl funding that was in place over this summer, which came from a round-table that we'd organised, noting that the impact of the pandemic on children had stopped them going to their social clubs and events, and wanting to re-energise that provision. So, the Government invested £5 million in that over the summer and have since put a further £20 million now in place into what they're calling 'the winter of well-being', to continue the access—free access—to provision during the holidays. And that's in a range of provision, so not just sports clubs or traditional play schemes, but cultural activities, and people like National Museum Wales are involved in that."*¹²⁷

105. Cydnabu fod egwyddor allweddol y cyllid yn ymwneud ag ehangu'r mynediad, yn hytrach na chael llawer o ddarpariaeth mewn mannau lle mae rhywfaint eisoes, ac awgrymodd y gallai

¹²⁴ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 15 Tachwedd 2021

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEN Cymru

¹²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 29 Tachwedd 2021

Gwarchod y dyfodol

Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

gweithgareddau datblygu ar ôl ysgol tebyg fod yn rhan o'r cynllun peilot i gyflwyno newidiadau i'r diwrnod ysgol, fel y cynigir yn y Cytundeb Cydweithio.¹²⁸

106. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddarparu gofal plant cofleidiol cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Bydd yn cyhoeddi cynllun cyflawni yn nodi sut y caiff hyn ei gyflawni yn ystod y senedd bresennol.¹²⁹ Soniodd Alison Cumming am gynlluniau Llywodraeth yr Alban:

*"...we do see the investment in wraparound childcare as being a slightly different focus than I described for early learning and childcare earlier—it is more about supporting parental employment, and we see it as a direct and important investment in tackling child poverty. We have statutory child poverty targets in Scotland, and we're looking to design a wraparound childcare system in a way that really supports parents to access those—as I describe them—fair work and employment opportunities, to help raise household incomes."*¹³⁰

107. Cytunodd y Dirprwy Weinidog fod ar lawer o rieni angen gofal plant gyda'r hwyr, a bod ei angen dros y penwythnos hefyd. Dywedodd fod rhai lleoliadau gofal plant yng Nghymru sy'n cynnig nosweithiau hwyr, a bod rhai'n cynnig gofal ar y penwythnos, sy'n dangos bod parodrwydd yn y farchnad i ddiwallu'r angen.¹³¹

Ein barn ni

Mae darparu gofal plant cofleidiol ac yn ystod gwyliau ysgol i blant oedran ysgol yn galluogi rhieni i gadw swydd, parhau i symud ymlaen yn eu gyrfaedd, a chynyddu incwm aelwyd ond, ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth hon yn seiliedig ar amserlen draddodiadol yr ysgol. Gallai diwygio'r diwrnod ysgol fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn, felly rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i ddiwygio dyddiadau tymor ysgol a'r diwrnod ysgol. Rydym yn croesawu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles' i blant allu parhau i fynd i glybiau a digwyddiadau yn ystod gwyliau ysgol, ond rydym yn cydnabod bod darpariaeth y tu allan i'r cynlluniau hyn yn anghyson. Byddem yn croesawu datblygiadau

¹²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 29 Tachwedd 2021

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth yr Alban

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 247, 15 Tachwedd 2021

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 176, 29 Tachwedd 2021

arloesol mewn perthynas â diwygio'r diwrnod ysgol i ddarparu clybiau ar ôl ysgol a all gynnig cyfleoedd i bawb sydd am fanteisio arnynt.

Roedd yn ddiddorol gennym gael gwybod am y cynlluniau ar gyfer gofal cofleidiol y mae Llywodraeth yr Alban yn eu gweithredu. Byddwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r cynlluniau yn yr Alban a llunio asesiad o ddichonolrwydd cynllun o'r fath yng Nghymru, ac adrodd i ni ar hyn.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i gynnig gofal cofleidiol i bawb, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a all gynnig cyfleoedd i bawb sydd am fanteisio arnynt.

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

108. Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sy'n cynnig gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd fod yn gofrestredig i wneud hynny. Mae *Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010* (y "Gorchymyn Eithriadau") yn nodi'r eithriadau i gofrestru.

109. O dan y Gorchymyn Eithriadau, caiff Gweinidogion Cymru bennu'r amgylchiadau pan fo unigolyn, y byddai ei weithgarwch fel arall yn dod o fewn diffiniad gwarchod plant neu ofal dydd i blant, wedi'i eithrio o'r diffiniad ac felly nad yw'n ofynnol iddo gofrestru.¹³² Yn 2019, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad llawn ar y Gorchymyn Eithriadau yn 2019, pan gyhoeddodd grynodedb o dystiolaeth yn seiliedig ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid.¹³³

110. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth anghyson gan rhanddeiliaid ar effaith y Gorchymyn Eithriadau ar glybiau cofrestredig sy'n darparu gofal y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau, ac sy'n diogelu plant.

111. Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Mudiad Meithrin, fod nifer o ddarparwyr gofal plant yn gweithredu heb gofrestriad, sy'n codi cwestiynau am ansawdd y ddarpariaeth.¹³⁴ Dywedodd Jane O'Toole, Clybiau Plant Cymru, nad yw rhieni'n deall, os ydynt yn cael mynediad at ofal plant cofrestredig, y cânt fynediad at ofal plant di-dreth, Credyd Cynhwysol a'r Cynnig Gofal Plant hefyd.¹³⁵

¹³² *Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010*.

¹³³ Llywodraeth Cymru, *Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010: Cais am Dystiolaeth – Adroddiad ar y Grynodedb o Ganfyddiadau Allweddol*.

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 102, 15 Tachwedd 2021

¹³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 15 Tachwedd 2021

112. Dywedodd un rhanddeiliad fod angen i'r Gorchymyn Eithriadau gael ei adolygu. Nododd ei bryderon ynghylch effaith darparwyr anghofrestredig yn darparu gofal plant yn ystod gwyliau o dan y Gorchymyn Eithriadau ar ddarparwyr cofrestredig:

"We have had situations where they have been running from a school or a community building and there is an unregulated holiday camp and have put a childcare setting out of business and the local authority were advertising the unregulated holiday camp ... children have the right to be safeguarded and parents to know there are policies in place and a lot of parents don't know the difference between a Care Inspectorate Wales provision and one that is operating outside of the national minimum standards and when they see the local authority advertising it they think they are endorsing it ... brilliant to see investment in SHEP [the School Holiday Enrichment Programme] or Holiday of Fun but we mustn't lose sight of the regulated provision ... we must find a way to work in partnership."

113. Roedd Sharon Davies, Pennaeth Addysg, CLILC, yn amau hyn a chyfeiriodd at arolygon sy'n dangos nad yw demograffig y plant sy'n cael mynediad at Raglen Gwella Gwyliau'r Haf yr un peth â'r rhai sy'n cael mynediad at ofal plant:

*"... we do not take the children that would necessarily access childcare. As I've mentioned, we've done the surveys, and time and time again the surveys indicate that these parents don't access childcare, and therefore—. It's a different demographic of children."*¹³⁶

Ein barn ni

Clywsom bryderon gan ddarparwyr bod y Gorchymyn Eithriadau yn niweidio busnes i ddarparwyr cofrestredig. O gofio'r materion a gododd rhai rhanddeiliaid ynghylch y Gorchymyn Eithriadau, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal yr adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau yr ymrwymodd i'w wneud yn 2019, gan roi sylw i'r materion a godir gan y Pwyllgor hwn. Yn ddealladwy, cafodd hyn ei ohirio oherwydd y pandemig, ond mae'r effaith ganfyddedig ar fusnesau yn golygu y dylid bwrw ymlaen â hyn nawr. Dylai'r Llywodraeth roi gwybod i ni am ganlyniadau'r adolygiad hwn a nodi sut yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon ynghylch diogelu a'r effaith ar leoliadau cofrestredig.

¹³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 15 Tachwedd 2021

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i gynnal yr ymgynghoriad llawn ar y Gorchymyn Eithriadau yr ymrwymodd iddo yn 2019 er mwyn ymdrin â phryderon ynghylch yr effaith negyddol y mae wedi'i chael ar ddarparwyr cofrestredig ac ar ddiogelu plant.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
15 Tachwedd 2021	Catherine Fookes, Cyfarwyddwr, WEN Cymru Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Mudiad Meithrin, Cwlwm Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol, Clybiau Plant Cymru, Cwlwm Sharon Davies, Pennaeth Addysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Johan Kaluza, Uwch-gynghorydd yr Adran Dadansoddi Polisi, Asiantaeth Sweden ar Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau Alison Cumming, Cyfarwyddwr, Dysgu Cynnar a Gofal Plant, Llywodraeth yr Alban
29 Tachwedd 2021	Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Comisiynydd Plant Cymru Ruth Coombs, Pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru Martyn Jones, Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o gyfranogwyr yn y sesiynau bord gron

Cymerodd y tystion a ganlyn ran mewn sesiynau bord gron. Mae crynodeb o'r drafodaeth i'w weld ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
22 Tachwedd 2021	Ceri Edwards , Mudiad Meithrin Nia Parker , Mudiad Meithrin Eirwen Hughes , Mudiad Meithrin Beth Watkins , Cyngor Sir Fynwy Rachel Jones , Cyngor Gwynedd Sarah Mutch , Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Naomi Evans , Clybiau Plant Cymru / Cwlwm Amy Baugh , Clybiau Plant Cymru Delyth Evans , Mudiad Meithrin Rhian Beynon , Gingerbread Catherine Davies , Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Sarah Rees , Oxfam Cymru

Atodiad C: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i ymgynghoriad y Pwyllgor:

Cyfeirnod	Sefydliad
CPE01	Sefydliad Bevan
CPE02	Cyngor Sir y Fflint
CPE03	Cyngor Sir Penfro
CPE04	WEN Cymru
CPE05	Mudiad Meithrin
CPE06	Plant yng Nghymru
CPE07	Pregnant Then Screwed
CPE08	Ymateb ar y cyd gan Ganolfan Datblygu Cymunedol De Glanyrafon, Trefnu Cymunedol Cymru, a Comunidade Da Lingua Portuguesa Wrecsam
CPE09	Comisiynydd Plant Cymru
CPE10	Cwlwm
CPE11	Oxfam Cymru
CPE12	Grŵp Gweithredu Tlodi Plant
CPE13	Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
CPE14	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Rhoddodd y sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor cyn mynd i gyfarfod Pwyllgor ffurfiol:

Sefydliad	Cyfarfod
Chwarae Teg	15 Tachwedd 2021
Cwlwm	15 Tachwedd 2021
Asiantaeth Sweden ar Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau	15 Tachwedd 2021
Llywodraeth yr Alban	15 Tachwedd 2021
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru	29 Tachwedd 2021
Llywodraeth Cymru	29 Tachwedd 2021

Fe wnaeth yr ohebiaeth ganlynol lywio'r ymchwiliad:

Teitl	Dyddiad
Gohebiaeth at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwaith craffu Gweinidogol	29 Hydref 2021
Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch gweithio ar y cyd	3 Tachwedd 2021
Gohebiaeth at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch gweithio ar y cyd	4 Tachwedd 2021
Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch gweithio ar y cyd	22 Tachwedd 2021
Gohebiaeth at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Cytundeb Cydweithio a chyllideb ddrafft 2022-23	6 Rhagfyr 2021
Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch y Cytundeb Cydweithio a chyllideb ddrafft 2022-23	5 Ionawr 2022

Atodiad D: Rhestr o sefydliadau partner

Gyda chymorth y sefydliadau canlynol, cafwyd cyfranwyr i drafodaethau grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r sefydliadau a'r cyfranwyr hyn am eu cymorth a'u parodrwydd i gymryd rhan.

ACE (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái)

Sefydliad Bevan

Grŵp Gweithredu Tlodi Plant

Chwarae Teg

CIPW Comunidade Da Lingua Portuguesa
Wrecsam / Cymru

Cytûn

Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

Gingerbread

Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

Mudiad Meithrin

Rhieni Dros Addysg Gymraeg

Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal
Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru
(PACEY Cymru)

Lles Rhieni Sengl

Canolfan Datblygu Cymunedol De
Glanyrafon

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together
Creating Communities)

Tots Play

Voices from Care Cymru

Women Connect First

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod
Cymru